Mae'r adolygiad wedi'i lywio gan ystod o dystiolaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys:

- Arolygu holl staff Comisiwn y Cynulliad (359 o ymatebion gyda 190 o ymatebwyr yn rhoi sylwadau manwl sy'n cyfateb i 665 o syniadau a materion gwella unigol);
- Cwrdd â holl Benaethiaid Gwasanaeth Comisiwn y Cynulliad;
- Mynd i gyfarfodydd tîm gwasanaethau ar draws y Comisiwn;
- Mynd i gyfarfod Fforwm y Cadeiryddion;

Adolygiad Capasiti

- Cyfarfodydd unigol â Chadeiryddion Pwyllgorau;
- Cyfarfod â phenaethiaid staff grwpiau pleidiau;
- Dadansoddi penderfyniadau recriwtio, cynlluniau gwasanaeth a chapasiti, adroddiadau adnoddau AD, adroddiadau archwilio mewnol, yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a data sefydliadol eraill;
- Data o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i helpu i feincnodi, lle bo hynny'n bosibl;
- Meincnodi ein gwasanaethau dwyieithog yn erbyn deddfwrfeydd dwyieithog eraill.

Yn ychwanegol at y tîm adolygu, cafwyd gweithgor i roi cymorth a her. Mae mewnbyn a chynghor gan Gynghorwyr Annibynnol Comisiwn y Cynulliad hefyd wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i lunio'r adolygiad.

Mae'r adolygiad yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cam nesaf o waith, a fydd yn ceisio datblygu a chytuno ar atebion i roi'r cynllun gweithredu ategol ar waith.

Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canfyddiadau'r adolygiad sydd wedi'i strwythuro o amgylch yr amcanion a nodwyd yng nghylch gorchwyl yr adolygiad.

Staffio Comisiwn y Cynulliad: I ddadansoddi sut y mae adnoddau staff wedi'u dyrannu o fewn y sefydliad a gwerthuso ai hyn yw'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau i gyflawni amcanion y Comisiwn.

Meincnodi: Meincnodi ein gwasanaethau yn erbyn y rhai a ddarperir gan seneddau eraill a galluogi'r Comisiwn i ystyried sut y mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau esblygol y Comisiwn.

Cyfleoedd i weithio'n wahanol: Gweithio gyda staff i ganfod gweithgareddau nad ydynt yn flaenoriaeth mwyach neu y gellid eu darparu'n wahanol, gan ddwyn ynghyd meysydd eraill o waith parhaus ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ganfod a manteisio ar ffyrdd o wneud pethau'n well.

Staffio Comisiwn y Cynulliad

Y cyd-destun cyfansoddiadol

Mae rôl a phwerau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ers 1999. Mae'r pwysau ar y Cynulliad yn debygol iawn o barhau i gynyddu wrth fabwysiadu model datganoli cadw pwerau, datganoli pwerau i godi trethi a benthyca (gan gynnwys pwerau amrywio treth incwm), datganoli cyfrifoldebau eraill ymhellach a Brexit.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal cyfres o drawsnewidiadau radical o'i bwerau – ac, yn un achos, ei strwythur – yn y 18 mlynedd ers ei sefydlu. Arweiniodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y ffordd at wahanu un corff corfforaethol i Lywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn 2007, gyda symudiad sylfaenol arall ar ôl y Refferendwm yn 2011 i gael pwerau deddfwriaeth sylfaenol llawn. Yn sgil Ddeddfau Cymru 2014 a 2017, cawsom bwerau codi trethi a newidiadau pellach i'r setliad datganoli a chyfrifoldebau'r sefydliad.

Mae maint Llywodraeth Cymru wedi newid dros amser i adlewyrchu rôl a phwerau'r Cynulliad. Pan sefydlwyd y Cynulliad i ddechrau, roedd y Rheolau Sefydlog yn cyfyngu ar faint y Cabinet i naw. Cafodd y terfyn hwn ei gynyddu i 14 gan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad wedi'i gyfyngu i 60 Aelod o hyd, sy'n gosod heriau sylweddol wrth geisio dwyn y weithrediaeth i gyfrif.

Mae maint y Cynulliad yn golygu bod y rhan fwyaf o Aelodau meinciau cefn pob plaid wleidyddol yn aelodau o ddau neu weithiau tri phwyllgor heriol. Er enghraifft, ar ôl cyfrif aelodau Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Lywydd, dim ond 15 o Aelodau Llafur Cymru y meinciau cefn sydd ar gael. Rhaid i'r 15 Aelod rhyngddynt lenwi lle ar Gomisiwn y Cynulliad, chwe chadeirydd pwyllgor a 31 o lefydd mewn pwyllgorau. Gan fod pedwar lle Llafur ar bob un o'r pwyllgorau polisi a deddfwriaethol, y canlyniad fwy neu lai yw y bydd pob un o aelodau meinciau cefn y blaid mewn pwyllgor ar fore Mercher a drwy'r dydd ar ddydd Iau pan gynhelir pedwar pwyllgor ar yr un pryd.

Gan edrych ymlaen, mae'r Cynulliad yn gweithredu yng nghyd-destun newid cyfansoddiadol heb ei debyg yn y DU, a hynny oherwydd canlyniadau'r refferendwm ar aelodaeth yr UE.

Adolygiad Capasiti

Mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn debygol o ddod â newidiadau pellach i rôl a llwyth gwaith y Cynulliad. Mae gan y Cynulliad rôl hanfodol o ran sicrhau bod llais pobl Cymru yn cael ei glywed yn y trafodaethau ar Brexit. Bydd angen iddo chwarae ei ran yn goruchwyllo'r trafodaethau, a chraffu ar y ddeddfwriaeth fydd yn dilyn.

Nid yw union natur effaith Brexit ar rôl, pwerau a llwyth gwaith y Cynulliad yn glir eto, gan na allwn wybod yn sicr ar hyn o bryd beth fydd y trefniadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit, na pha bwerau fydd yn cael eu dychwelyd o'r UE a beth fydd goblygiadau hynny o ran cyfrifoldebau a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn disgwyl y bydd cyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban yn cynyddu.

Mae'n amlwg y bydd gan y Cynulliad rôl i'w chwarae yn craffu ar y sefydliad a'r gwaith o weithredu unrhyw fframweithiau cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi, ym mha bynnag ffurf y byddant. Felly, gallwn ddisgwyl y bydd rôl y Cynulliad yn ystod proses Brexit, ac yn y DU ar ôl Brexit, yn cynnwys ffurfio polisi cyhoeddus yng Nghymru mewn meysydd a oedd yn dibynnu'n flaenorol ar ddulliau a bennwyd ar lefel Ewropeaidd; craffu ar gryn lawer o ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol; craffu ar waith rhynglywodraethol; hwyluso a chynnal gwaith craffu ar y cyd â deddfwrfeydd eraill; a dylanwadu ar y ddadl o ran ble y dylai pwerau sy'n cael eu dychwelyd o'r UE fynd.

Er y gallai fod peth ansicrwydd ynghylch y pwerau sydd gan y Cynulliad o ganlyniad i Brexit, mae'n glir na fydd llwyth gwaith Aelodau yn lleihau a'i fod yn debygol o gynyddu.

Bydd Comisiwn y Cynulliad hefyd yn monitro'n agos unrhyw ddatblygiadau ynghylch argymhellion Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ac yn ystyried y goblygiadau posibl ar gapasiti, adnoddau a ffyrdd o weithio.

Datblygu strwythur Comisiwn y Cynulliad

Ers ei greu, nod Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a darparu gwasanaeth yw anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd ar ei waith. Nodweddion y lefelau gwasanaeth y mae'n eu darparu yw cyflymder, ymatebolrwydd i ofynion

Adolygiad Capasiti

Aelodau a darpariaeth sy'n aml wedi'i theilwra i anghenion pwyllgorau ac Aelodau unigol. Mae'r pwynt olaf hwn yn benodol yn un sy'n gwneud y Cynulliad yn senedd nodedig.

Yn ystod y cyfnod ers gwahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yn 2007, mae Comisiwn y Cynulliad wedi gweld cynnydd yn yr adnoddau pobl a ddyrannwyd iddo er mwyn cyflawni'r nodau, y blaenoriaethau a'r anghenion a bennwyd gan y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn wedi cynnwys:

- darparu seilwaith corfforaethol i Gomisiwn y Cynulliad fel sefydliad newydd ar ôl gwahanu oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu a datblygu swyddogaeth adnoddau dynol i gefnogi'r sefydliad sy'n aeddfedu a darparu swyddogaethau cyfreithiol, llywodraethu a chaffael ei hun i'r sefydliad;
- defnyddio trefniadau TGCh mewnol yn y sefydliad gan sicrhau sgiliau ac arbenigedd TGCh effeithiol sy'n darparu gwell gwerth am arian na'r trefniadau blaenorol o gontractio gwasanaethau;
- darparu lefelau gwell o ddiogelwch, gan gydnabod y bygythiadau cynyddol o ran terfysgaeth;
- cefnogi Aelodau a'u staff yn well i gyflawni eu dyletswyddau yn sgil rolau cynyddol o ran craffu deddfwriaethol ac ariannol a newid cyfansoddiadol ehangach;
- gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym ymhellach mewn perthynas â gweithio'n ddwyieithog i sicrhau bod y ddwy iaith swyddogol yn cael eu trin yn gyfartal;
- ymateb i ddisgwyliadau cynyddol gan Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru o ran ein gwaith ymgysylltu a gwasanaethau digidol. Gan gynnwys disgwyliadau o ran tryloywder a hygyrchedd gwybodaeth a gallu cyfathrebu'n gyflym â'n cynulleidfaoedd mewn ymateb i lwyfannau newyddion 24 awr.

Mae'r Comisiwn wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid na ddylai newidiadau yn ein cyllideb yn y dyfodol fod yn fwy na'r hyn a welwyd yn grant Bloc Cymru ac nad ydym yn cynyddu nifer y swyddi yr ydym yn eu cyllido yn ystod 2018–19.

Adolygiad Capasiti

O gofio'r pwysau a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn, mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio'n ofalus yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod gennym hyblygrwydd i ymateb i anghenion wrth iddynt godi.

Strwythur presennol Comisiwn y Cynulliad

Cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ei Strategaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016. Ar gyfer pob nod strategol, nod y Comisiwn yw:

*'gosod a chynnal safonau uchel fel arweinydd ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar adeg o graffu cyhoeddus mwy trylwyr fyth, a gwella ein henw da yn rhyngwladol fel sefydliad seneddol o'r radd flaenaf sy'n agored ac yn effeithiol.*²

Mae strategaeth cyllideb y Comisiwn yn ceisio parhau â'r lefelau rhagorol o gefnogaeth, ond gan hefyd ystyried y cyd-destun ariannol ehangach, sy'n gweld y rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gorfod bod yn ddarbodus a gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Er mwyn ategu Strategaeth Comisiwn y Cynulliad, mae uwch-reolwyr wedi sefydlu 'edefyn' cynllunio sy'n rhedeg o'r strategaeth a'r nodau, drwy'r blaenoriaethau corfforaethol ac i'n gwaith cynllunio gwasanaeth a chapasiti. Ategir hyn gan fframwaith sicrwydd, sy'n helpu i sicrhau tystiolaeth o gynllunio a phenderfyniadau effeithiol.

Ers mis Awst 2016, rhannwyd gweinyddiaeth y Comisiwn yn dri Chyfarwyddiaeth (Busnes y Cynulliad, Adnoddau'r Cynulliad a Gwasanaethau'r Comisiwn), gan adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u rhannu ymhellach yn wasanaethau, dan arweiniad y Penaethiaid Gwasanaeth.

Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli, sy'n cwrdd yn rheolaidd yn ffurfiol ac yn anffurfiol i adolygu, cydlynu, a rhannu gwybodaeth ar faterion polisi a materion gweithdrefnol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau.

² Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016–2021, Gorffennaf 2016

Adolygiad Capasiti

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB) (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chlerc, Cyfarwyddwyr a Phennaeth Adnoddau Dynol) yn gyfrifol am benderfyniadau ar fuddsoddi ac adnoddau staffio ac am oruchwylio cyllideb y Comisiwn.

O fewn Comisiwn y Cynulliad, mae yna broses sefydledig o ran cynllunio capasiti a gwasanaethau a gwneir penderfyniadau ar draws y sefydliad ddwywaith y flwyddyn, wedi'u llywio gan gynigion manwl gan bob Cyfarwyddiaeth. Dim ond y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ar hyn o bryd sydd â'r awdurdod i recriwtio ar gyfer pob swydd, boed yn swyddi newydd fel rhan o gynllun capasiti wedi'i gymeradwyo neu swyddi 'ôl-lenwi'.

Gellir gweld manylion y sefydliad presennol a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ym mhob gwasanaeth yn y tabl isod. Mae newidiadau i nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad ers 2007 i'w gweld yn Atodiad A.

Adolygiad Capasiti

Adran	Sefydliad (Medi 17)	Cyferth ag amser llawn (Medi 17)
Y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau (CAMS)	32	32.34
Y Gwasanaethau Cyfreithiol	15	14.08
Yr Adran Adnoddau Dynol	33	28.59
Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau (EFM)	30	30.12
Y Gwasanaethau Ariannol	14	13.43
TGCh	45	42.99
Y Gwasanaeth Ymchwil	44	40.27
Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau	24	23.30
Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi (TRS)	47	43.72
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth (PLCS)	33	32.41
Cyfathrebu	32	27.27
Diogelwch	74	65.16
Gwasanaeth Llywodraethu, Archwilio a Chaffael	15	14.15
Yr Uned Gydgysylltu	6	6.00
Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol (STS)	14	14.00
Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol (PAVVS)	33	26.09
Cyfanswm	491	453.92

Dulliau o ddarparu adnoddau

Mae darparu adnoddau i Gomisiwn y Cynulliad yn golygu ystod o heriau, o optimeiddio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau seneddol, gorfod bodloni nifer o ofynion statudol, cynnwys ystod eang o batrymau gwaith o weithio yn ystod y tymor i systemau sifft, bod yn barod ar gyfer

Adolygiad Capasiti

gofynion gwleidyddol mewnol ac allanol a gofynion eraill ac ymateb yn gyflym i'r rhain.

Mae'r Cynulliad yn cael ei ystyried fel un o'r gorau ymysg seneddau eraill am y ffordd integredig y mae'n cefnogi ei bwyllgorau. Caiff y dull ei gydnabod fel un sy'n annog dull cyfannol o ddarparu arbenigedd a chynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i'r eithaf.

Mae gan rai gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, neu sydd angen cael gafael ar adnoddau neu arbenigedd ychwanegol dros dro ar adegau penodol, gontractau allanol ar waith sy'n eu galluogi i fod yn fwy hyblyg i fodloni gofynion, fel y Gwasanaethau Cyfreithiol, Ystadau, datblygu rhaglenni TGCh a Chyfieithu.

Mae'r gwaith ymgysylltu academaidd a arweinir gan y Gwasanaeth Ymchwil hefyd yn ffordd o ddefnyddio arbenigedd academaidd ychwanegol am gyfnod byr i wella capasiti a gallu timau yn bennaf o fewn y Gyfarwyddiaeth Fusnes. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau cyfnewid gwybodaeth â Phrifysgol Caerdydd ar systemau gwybodaeth daearyddol (GIS) a chydweithio rhwngseneddol e.e. ar Brexit.

Mae staff Comisiwn y Cynulliad hefyd yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus ar draws pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno strwythurau newydd a ffyrdd newydd o weithio yn dilyn adolygiad o ddigwyddiadau'r Cynulliad a'n gwasanaethau diogelwch. Rydym hefyd wedi sicrhau ffyrdd newydd o chwilio drwy Gofnod y Trafodion a'r prosesau ynghylch cyflwyno cwestiynau a gwelliannau.

Er ein bod yn cydnabod yr amrywiol ffyrdd effeithiol yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, rydym hefyd wedi nodi cyfleoedd i wella. Roedd ymatebion i'n harolwg staff yn canfod fod cynllunio gwaith doethach, mwy o gydweithio ar draws timau a sicrhau bod gwaith yn llifo'n effeithlon yn themâu gwella cyffredin.

Diwylliant y sefydliad

Mae diwylliant o ragoriaeth a cheisio gwella'n barhaus yn un y mae mwyafrif y staff yn ei gydnabod yn eu hymatebion i'r adolygiad. Roedd nifer yn disgrifio diwylliant y Comisiwn fel un sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r allbynnau a'r gwasanaethau o'r safon uchaf posibl. Mae hyn wedi arwain at

Adolygiad Capasiti

wasanaethau o safon uchel y mae Aelodau a'u staff cymorth yn dweud eu bod yn eu gwerthfawrogi. Mae canlyniadau arolygon blynyddol, olynol Aelodau a Staff Cymorth Aelodau yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd o ran gwasanaethau'r Comisiwn. Mae Aelodau wedi nodi bod lefel y gefnogaeth a gânt yn helaeth iawn ac yn cymharu'n ffafriol â seneddau eraill.

Un rhan annatod o ethos y sefydliad yw bod y Comisiwn yn draddodiadol yn ymateb ar unwaith i geisiadau gan Aelodau, Comisiynwyr a'r Llywydd. Mae'r dull hwn, ynghyd â'r awydd i ddarparu i'r safon uchaf posibl, wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol. Mae gwaith dadansoddi ffurflenni cymeradwyo recriwtio a chynlluniau gwasanaeth yn dangos bod y galw cynyddol i ddarparu gwasanaethau pellach ac o safon uwch yn cyfrannu'n sylweddol at faint cynyddol Comisiwn y Cynulliad.

Roedd y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad yn sôn am wneud darnau unigol o waith i Aelodau a gwasanaethau mewnol a allai gynyddu'n gyflym i wythnosau o waith sy'n ychwanegu pwysau at adnoddau presennol i ateb pob cais. Mae'r gwasanaeth Ymchwil, y gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfathrebu wedi nodi hyn.

Sgiliau a galluoedd

Roedd deall a datblygu sgiliau a galluoedd ein staff yn thema gref a oedd yn deillio o'r adolygiad. Roedd y rhai a gyfrannodd yn nodi pa mor bwysig yw cael y sgiliau cywir yn ogystal â chael y capasiti cywir. Rydym wedi elwa ar lefelau da o fuddsoddi yn natblygiad staff fel y gwelir gan y ffaith ein bod wedi cyrraedd y lefelau uchaf yng ngwobrau Buddsoddwyr Mewn Pobl (IiP) ers nifer o flynyddoedd a'r adborth cadarnhaol a gafwyd yn yr arolygon staff ac Aelodau. Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn sôn am bwysigrwydd buddsoddi parhaus yn natblygiad staff ond hefyd sicrhau bod hyfforddiant yn canolbwyntio'n briodol ar gyflawni buddion busnes sy'n cyd-fynd â'n nodau strategol.

Mae adolygiad o anghenion dysgu a datblygu wrthi'n cael ei gynnal gyda'r bwriad o gadarnhau pa hyfforddiant y mae'r Cynulliad yn ei gynnig ar hyn o bryd; cynnal dadansoddiad o'r bwlch dysgu; deall y sgiliau / gwybodaeth / dysgu sy'n ofynnol a sut y gellir darparu'r rhain.

Mae'n hollbwysig bod ein swyddogaeth dysgu a datblygu yn cyd-fynd â'n cyfeiriad strategol a bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn seiliedig ar

Adolygiad Capasiti

fanteision sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sy'n galluogi a gwella gwerth y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad (AMSS) wedi nodi eu bod yn rhoi gwerth sylweddol ar y cymorth a gânt gan y Comisiwn o ran eu datblygiad proffesiynol, gan nodi bod y *tîm datblygu proffesiynol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau ac adnoddau hyfforddiant gwerthfawr sy'n helpu AMSS i wella eu sgiliau fel y gallant gyflawni eu swyddi yn fwy effeithiol ac effeithlon.*

Meincnodi

Meincnodi maint y sefydliad

Mae staff Comisiwn y Cynulliad ar draws pob Cyfarwyddiaeth yn cynnal cysylltiadau agos â seneddau eraill yn y DU ac Iwerddon, yn ogystal ag Awstralia a Chanada, gwledydd eraill y Gymanwlad ac mewn mannau eraill ar draws y byd. Mae manteision niferus i'r cysylltiadau hyn gan gynnwys y cyfle i rannu a nodi arfer gorau yn rheolaidd wrth ddarparu gwasanaethau seneddol sy'n cynnig gwerth am arian.

Rydym yn gwybod o'r perthnasau rydym wedi'u datblygu bod seneddau yn darparu adnoddau mewn ffyrdd gwahanol, i ddiwallu anghenion penodol. Mae'r newidynnau (sy'n sylweddol) sy'n effeithio ar benderfyniadau o ran darparu adnoddau yn cynnwys:

- y cyd-destun gwleidyddol ac ariannol;
- swyddogaethau a gweithdrefnau'r senedd, gan gynnwys nifer yr ieithoedd swyddogol;
- nifer yr Aelodau a lefelau staff cymorth yr Aelodau;
- y ffordd y mae Aelodau yn canfod ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau;
- yr adnoddau sydd ar gael i'r senedd gan sefydliadau eraill / sectorau cymdeithasau;
- y dewisiadau a wneir gan uwch-reolwyr ynghylch sut i drefnu timau i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiad.

Oherwydd hynny, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol a chlr. Er enghraifft, mae Senedd yr Alban, sy'n cael ei nodi yn aml fel y sefydliad mwyaf tebyg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn wahanol mewn sawl ffordd, a hynny ar sail y canlynol:

- Hanes, diwylliant a gwleidyddiaeth
- Maint
- System bwyllgorau
- Gweithdrefnau a ffurf y timau clericio
- Gwasanaethau sydd ar gael i Aelodau, e.e. i gefnogi deddfwriaeth y meinciau cefn

Adolygiad Capasiti

- System gyfreithiol (h.y. mae gan yr Alban awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr)
- Cymhwysedd deddfwriaethol
- Polisi iaith

Ar yr wyneb, gellid disgwyl y byddai rhai gwahaniaethau – maint, cymhwysedd deddfwriaethol – yn golygu mwy o staff i Senedd yr Alban; tra y byddai gwahaniaethau eraill – polisi iaith llai uchelgeisiol, llai o gefnogaeth ar gyfer deddfwriaeth meinciau cefn – yn golygu llai o staff. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'r gwahaniaethau hyn yn llai amlwg. Er mwyn eu deall bydd angen ystyried yn fanwl pam a sut y mae gwasanaethau yn cael eu strwythuro ac yn cael adnoddau, yn ogystal â'r ffordd y caiff nifer y staff eu nodi, y tasgau a wneir, a'r cyfrifoldebau a rennir ar draws gwahanol dimau.

O fewn amserlen yr adolygiad hwn, nid ydym wedi gallu cynnal y lefel hon o ddadansoddiad manwl mewn perthynas â'n cymaryddion mwyaf cyfarwydd – seneddau datganoledig eraill y DU nac, yn wir, meincnodi byd-eang ehangach.

Serch hynny, rydym wedi gallu meincnodi nifer y staff yn erbyn y rhai yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon a gellir eu gweld yn y tablau isod. Mae gan Senedd yr Alban sefydliad o 504 ac mae Cynlluniad Gogledd Iwerddon yn nodi ei fod yn sefydliad o 344.9. Am y rhesymau a nodir uchod, rhaid defnyddio'r ystadegau hyn yn ofalus iawn.

Mae'r ffigurau yn y ddau dabl isod wedi'u dadansoddi yn unol â strwythur Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, yn y drefn honno. O ganlyniad, pan fo'n briodol, rydym wedi grwpio'r gwasanaethau y gellir eu cymharu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gallu gwneud cymariaethau uniongyrchol.

Gwasanaethau Senedd yr Alban	Sefydliad	Sefydliad
------------------------------	-----------	-----------

Adolygiad Capasiti

	Senedd yr Alban (Medi 2017)	Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2017)
Siambr, Cofnodi a Darlledu	75	62*
Pwyllgorau ac Allgymorth	62	59
Gwasanaethau Digidol	62	54
Adnoddau Dynol a Rheoli Cyfleusterau	57	58
Cyllid (gan gynnwys Cyflogres a Lwfansau) a Diogelwch	110	108
Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael ac Archwilio	25	30
Ymchwil, Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	92	103
Swyddfeydd y Llywydd, Prif Weithredwr, Cysylltiadau Rhyngwladol ACEs, deiliaid swyddi	21	17
Cyfanswm	504	491

Adolygiad Capasiti

Cynulliad Gogledd Iwerddon Gwasanaethau	Sefydliad Gogledd Iwerddon (Medi 2017)	Sefydliad Cymru (Medi 2017)
Swyddfeydd y Cyfarwyddwyr a Chymorth i'r Comisiwn	14.0	32
Cyllid	20.8	14
Swyddfa Adnoddau Dynol a'r Uned Cydraddoldeb	16.2	33
Ystadau, gwasanaeth porthor a gwasanaethau diogelwch	89.3	104
Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn	73.2	77
Cyfathrebu, Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chofnod Swyddogol	56.9	112*
Systemau Gwybodaeth	17.6	45
Gwasanaethau Cyfreithiol	9.8	15
Gwasanaeth Ymchwil	37.1	44
Archwilio, Llywodraeth a Chaffael	10.0	15
Cyfanswm	344.9	491

*Mae ffigurau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys staff cyfieithu

Mae pob sefydliad yn unigryw ac mae'r tair deddfwrfa wedi'u strwythuro'n wahanol. Dylem nodi hefyd fod gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru hawl i gael tri Aelod Cyfwerth ag Amser Llawn fel Staff Cymorth. Cynyddodd nifer y staff cymorth a ganiateir i Aelodau Senedd yr Alban (MSPs) o ddau i dri ar ôl etholiad 2016. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gan Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA) hawl i gael dau aelod o staff.

Mae'r prif ffigurau yn dangos bod gan Gynulliad Gogledd Iwerddon llawer llai o staff na Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban.

Mae gan y tair deddfwrfa nifer wahanol o Aelodau – mae yna 60 o Aelodau Cynulliad yng Nghymru, 129 o Aelodau o Seneddol yr Alban ac roedd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon 108 o Aelodau hyd at etholiad mis Mawrth 2017, a disgynnodd hyn i 90 wedi hynny.

Adolygiad Capasiti

Mae lefel y gwaith dwyieithog ac ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddwyieithrwydd yn ei wneud yn wahanol i'r ddwy ddeddfwrfa ddatganoledig arall. Mae hyn yn cael effaith fawr ar ein gofynion o ran adnoddau ac mae i'w weld yn fwyaf amlwg yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Fodd bynnag, mae hefyd yn cael effaith ymarferol iawn ar amryw o wasanaethau eraill.

Er enghraifft, mae ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu lefelau cynyddol o gymorth briffio i bwyllgorau yn golygu terfynau amser llawer byrrach ar gyfer gwaith ysgrifenedig na'r hyn a welir mewn seneddau uniaith ac, yn ei dro, mae hynny'n cynyddu'r galw ar wasanaethau fel Ymchwil. Cynhelir y broses ddeddfwriaethol gyfan mewn dwy iaith yn hytrach nag un, gan ddyblu'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwelliannau a memoranda esboniadol, drafftio a phrawfddarllen. Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad yn darparu ar gyfer triniaeth gyfartal o'r ddwy iaith sy'n golygu bod angen defnyddio adnoddau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd mewnol y Comisiwn, addysgu Cymraeg a hyfforddiant i Aelodau, eu staff a staff Comisiwn y Cynulliad.

Mae gwahaniaethau eraill rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru a'r Alban yn cynnwys llawer llai o adnoddau ar gyfer TGCh, 17.6 o swyddi yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â 45 o swyddi yng Nghymru a 63 o swyddi yn yr Alban. Penderfynodd Comisiwn y Cynulliad ddod â holl swyddogaethau TGCh yn fewnol dair blynedd yn ôl. Mae hyn wedi arwain at arbedion rheolaidd (£1m y flwyddyn) a thîm mewnol sy'n darparu cefnogaeth ymroddedig i Aelodau'r Cynulliad, datblygu rhaglenni pwrpasol ac atebion digidol ymysg gwasanaethau eraill.

Mae gan Ogledd Iwerddon dîm Cymorth Busnes i Aelodau a thîm Allgymorth Addysg llai ac nid oes ganddo wasanaeth tebyg i Wasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Rheolau Sefydlog Gogledd Iwerddon yn darparu i Aelodau siarad yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, mae'r Llefarydd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau hefyd ddarparu cyfieithiad Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu gan asiantaeth a'r gost yw tua £18k y flwyddyn heb swyddi yn y sefydliad.

Mae gan Senedd yr Alban ffigur sefydliad sydd 13 yn uwch na ffigur y Cynulliad Cenedlaethol. Eto, mae wedi'i strwythuro mewn ffordd wahanol ond, mewn nifer o feysydd, mae lefelau staff yn debyg.

Adolygiad Capasiti

Nid oes gan Senedd yr Alban wasanaeth cyfatebol uniongyrchol i Wasanaeth Cymorth Busnes i Aelodau, y Bwrdd Taliadau, Datblygiad Proffesiynol Parhaus na'r Gwasanaeth Cyfieithu (gwahaniaeth mewn sefydliad o tua 48 o swyddi sy'n cwmpasu gwasanaethau na ddarperir yn yr Alban).

Meincnodi gwasanaethau dwyieithog

Fel y nodwyd yn flaenorol, un o'r nodweddion mwyaf nodedig sy'n gwneud y Cynulliad yn wahanol yw ei ddwyieithrwydd. Mae ganddo ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. O dan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi cynllun ar gyfer pob tymor y Cynulliad. Mae'n nodi ein huchelgais, y safonau gwasanaeth a'r themâu gwella yr ydym yn cael ein dal i gyfrif amdanynt bob blwyddyn i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i sicrhau bod y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad yn gallu rhyngweithio â'r Cynulliad yn eu dewis iaith swyddogol.

Mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Comisiwn y Cynulliad, a gyhoeddwyd o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf, yn ei gwneud yn ofynnol bod pob gwasanaeth yn cyhoeddi ei gynllun iaith ei hun. Mae'r cynlluniau yn galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i nodi'r capasiti dwyieithog sydd ei angen ar bob tîm o ran swyddogaethau o ddydd i ddydd eu gwasanaeth, ac yn amlinellu sut y mae pob tîm yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith yn y tîm a thu hwnt.

Rydym wedi ystyried meincnodi ein gwasanaethau dwyieithog yn erbyn y rhai yn Senedd yr Alban o ran y gefnogaeth a gynigir ar gyfer Gaeleg, Cynulliad deddfwriaethol Ontario, a Thŷ'r Cyffredin Canada. Gweler Atodiad B.

Caiff gallu dwyieithog arbenigol y Cynulliad ei reoli drwy'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi (TRS). Mae'r tîm yn cynnwys 47 o swyddi sefydliad sy'n cwmpasu cymysgedd o staff arbenigol ac aml-sgiliau sy'n gallu gweithio ar draws un neu fwy o'r tair sgil yn y gwasanaeth: trawsgrifio'r cofnod swyddogol; cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.

Mae'r gwasanaeth cofnodi yn gyfrifol am y cofnod (ysgrifenedig) swyddogol o'r holl gyfarfodydd Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn. Cyhoeddir cofnod y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog a chaiff y gwaith cyfieithu ei gontractio yn allanol am gost o tua £180K y flwyddyn. Caiff trawsgrifiadau Pwyllgor eu cyhoeddi yn yr iaith a siaredir gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg.

Adolygiad Capasiti

Mae'r holl ddogfennau gweithdrefnol a gyhoeddir yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Gellir darparu dogfennau mewnol a phreifat yn ddwyieithog. Mae cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer holl Fusnes y Cynulliad ac mewn digwyddiadau a chyfarfodydd mewnol ar gais. Mae gan y Cynulliad wefan gwbl ddwyieithog ac mae systemau meddalwedd yn defnyddio rhyngwynebau dwyieithog lle bo hynny'n ymarferol. Caiff y gwaith cyfieithu ar gyfer y rhain eu gwneud fel arfer gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

Mae Senedd yr Alban yn cefnogi'r defnydd o Gaeleg mewn trafodion seneddol. Mae cyfieithu ar y pryd ar gael ar yr amod y rhoddir rhybudd ymlaen llaw. Mae'r Cofnod Swyddogol yn yr iaith a siaredir gyda thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd Saesneg ar gyfer unrhyw Gaeleg a siaredir (dyma hefyd y sefyllfa yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon o ran y Wyddeleg). Caiff gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd eu darparu drwy ddau gontract allanol sy'n cyfateb i tua £105K y flwyddyn heb unrhyw swyddi sefydliad.

Mae gan Gynulliad Deddfwriaethol Ontario 107 o Aelodau ac maent yn defnyddio Saesneg a Ffrangeg. Caiff y Cofnod Swyddogol ei gyhoeddi yn yr iaith a siaredir yn unig ac ni chaiff ei chyfieithu. Mae ganddo 21 aelod o staff amser llawn a 6 aelod o staff ar alwad i drawsgrifio'r Cofnod Swyddogol. Darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl gyfarfodydd y Tŷ a phwyllgorau sy'n cael eu dangos ar y teledu gan 6 aelod o staff amser llawn yn ogystal â chyfieithwyr ar y pryd llawrydd yn ôl yr angen. Mae dogfennau'r Tŷ (e.e. Pleidleisiau a Thrafodion, Gorchmynion a Hysbysiadau) ar gael yn Saesneg a Ffrangeg, gyda'r gwaith cyfieithu yn cael ei wneud gan wasanaethau cyfieithu arbenigol. Nid yw maint y gwasanaeth cyfieithu yn hysbys.

Mae gan Dŷ'r Cyffredin Canada 334 o Aelodau sy'n gwbl ddwyieithog yn Saesneg a Ffrangeg. Caiff cofnod o'r Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn a'r holl ddogfennau gweithdrefnol eu cyhoeddi yn y ddwy iaith. Mae tua 160 o weithwyr (75% ohonynt yn rhan-amser) yn gwneud gwaith cofnodi a chyfieithu ar y pryd. caiff yr holl waith cyfieithu ei wneud gan Swyddfa Gyfieithu ar wahân nad yw'n rhan o sefydliad Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Swyddfa Gyfieithu yn cynnwys tua 117 o gyfieithwyr a 10 gweinyddwr.

Cyfleoedd i weithio'n wahanol

Cafodd cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithio eu casglu yn ystod yr adolygiad ac maent yn perthyn i ddau gategori: y rhai sydd ag effaith ar draws y sefydliad ac a drafodir isod; a'r rhai sy'n cael effaith benodol ar wasanaeth neu weithgaredd. Bydd y categori olaf yn cael ei asesu a'i ddatblygu ar lefel gwasanaeth. Y cyfleoedd newid ar draws y sefydliad yw:

- Cytuno ar flaenoriaethau;
- Cynllunio a darparu yn well;
- Mwy o ystwythder o ran capasiti a gallu;
- Datblygu dealltwriaeth gyffredin.

Cam gweithredu 1

Byddwn yn sefydlu grŵp llywio i reoli'r gwaith o gwblhau camau gweithredu'r Adolygiad Capasiti. Bydd y grŵp yn:

- goruchwylio'r gwaith o flaenoriaethu, darparu adnoddau, darparu'r rhaglen hon a'i manteision;
- sicrhau bod rhaglen waith yr Adolygiad Capasiti a rhaglenni a phrosiectau newid eraill Comisiwn y Cynulliad yn cyd-fynd â'i gilydd;
- adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr y Cynulliad ac yn rhannu gwybodaeth drwy Fwrdd Rheoli'r Comisiwn;
- Mynd ati i ymgysylltu â staff a chyfathrebu'n rheolaidd ar y cynnydd.

Cytuno ar flaenoriaethau

Caiff blaenoriaethau newydd eu pennu i'r Comisiwn yn sgil y pwysau cynyddol sydd ar y Cynulliad o ran newid cyfreithiol a rheoleiddiol, newid cyfansoddiadol a disgwyliadau uwch, yn enwedig o ran ymgysylltu â'n rhanddeiliaid sef Aelodau'r Cynulliad, pobl Cymru a sefydliadau partner. Mae'r Cynulliad yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym a all arwain at flaenoriaethau niferus, cymhleth sy'n cystadlu â'i gilydd.

O ystyried maint cyfyngedig adnoddau Comisiwn y Cynulliad, mae'r holl flaenoriaethau yn cystadlu am yr un adnoddau.

Adolygiad Capasiti

Er mwyn parhau i gyflwyno mentrau newydd a newidiadau, bydd angen i'r Comisiwn allu rheoli'r blaenoriaethau cystadleuol hyn yn well ac, ar yr un pryd, sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae cyfres o feini prawf blaenoriaeth i'w defnyddio gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau wrthi'n cael eu datblygu a bwriedir treialu hyn yn y misoedd nesaf i helpu'r Bwrdd i flaenoriaethu'r prosiectau a'r buddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ar ôl hynny.

Yn y dyfodol, bydd blaenoriaethu effeithiol parhaus yn dibynnu ar y canlynol:

- Cyflenwi gwybodaeth gywir ac amserol ar gostau, manteision ac effaith buddsoddiadau cystadleuol a mentrau newid i helpu i wneud penderfyniadau;
- Effaith, manteision a chostau cymharol mentrau newid i'w hasesu yn erbyn cyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer eu blaenoriaethu;
- Dealltwriaeth a chytundeb ar y cyd o nodau strategol y Comisiwn a blaenoriaethau lefel uchel ar draws y grwpiau dylanwad pwysig gan gynnwys y Comisiwn, y Pwyllgor Busnes, Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau a grwpiau pleidiau. Bydd angen dulliau i gryfhau a chanolbwyntio ar y sgwrs hon;
- Cyfathrebu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn effeithiol, gan gynnwys y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau, i randdeiliaid mewnol ac allanol.

Cam gweithredu 2

Byddwn yn cefnogi'r Comisiwn wrth flaenoriaethu prosiectau a mentrau newydd drwy:

- ddefnyddio dulliau a phrosesau meini prawf blaenoriaethu sefydledig y cytunwyd arnynt;
- darparu gwybodaeth gywir ac amserol ar fanteision a goblygiadau adnoddau yr opsiynau ar gyfer newid;
- sefydlu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol rhwng y rhanddeiliaid amrywiol.

Cynllunio a darparu yn well

Mae darparu mentrau blaenoriaethu yn effeithlon ac effeithiol yn gofyn am waith cynllunio cyson, fel bod:

- Gwell cydlynad o ran cynllunio cyllideb, gwasanaeth a chapasiti;
- Llwybr clir yn bodoli rhwng y nodau strategol, y gwaith cynllunio gweithredol a'r amcanion personol; a
- Manteision yn cael eu gwireddu drwy weithgareddau newid a sicrwydd cymesur ac effeithiol sy'n ategu gwaith llywodraethu da.

Mae peth o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio bellach yn cynnwys:

- Adolygiad o adroddiadau corfforaethol blynyddol gyda'r bwriad o leihau dyblygu posibl yn y system;
- Adnewyddu cyfres y Comisiwn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs);
- Adolygiad archwilio mewnol o Adroddiadau Datblygu Rheoli Perfformiad (PMDRs) i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben;
- Sgwrs barhaus ac adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd prosiectau a rhaglenni;
- Defnyddio Gweithgor ar draws y sefydliad i helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn barod ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Yn ogystal â gwelliant parhaus, mae'r Comisiwn yn cyflawni newid drwy brosiectau a rheolir yn ffurfiol a gaiff eu monitro gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau (IRB). Caiff buddsoddiad ei gymeradwyo neu ei wrthod yn seiliedig ar asesiad o fanteision a chostau cynigion prosiect.

Mae dulliau newydd o ran rheoli newid a rheoli prosiectau yn hyblyg wedi'u mabwysiadu a'u nod yw cynyddu effeithiolrwydd prosiectau newydd. Mae'r Comisiwn yn dysgu o'r dulliau newydd hyn ac yn eu meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg gan gynnwys Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU (GDS), Gwasanaeth Digidol Senedd y DU (PDS) a chydweithwyr yn Senedd yr Alban.

Adolygiad Capasiti

Bydd y rhan fwyaf o flaenoriaethau newydd Comisiwn y Cynulliad yn arwain at brosiectau neu fentrau ffurfiol. Er mwyn cyflawni'r rhain yn effeithiol ac effeithlon, bydd angen i'r Comisiwn barhau i:

- sicrhau dealltwriaeth glir o bwrpas a manteision dymunol mentrau newid;
- rheoli'r effaith ar fusnes o ddydd i ddydd;
- monitro cynnydd yn effeithiol;
- dyrannu arbenigedd rheoli newid yn effeithiol;
- sicrhau gwell eglurder o ran cyfrifoldebau.

Cam gweithredu 3

Byddwn yn gwella'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau, cynllunio gweithredol ac amcanion personol drwy:

- cynllunio senarios parhaus i asesu'r galw ar gyfer blynyddoedd i ddod a datblygu opsiynau ar gyfer sut y gellir mynd i'r afael â'r galwadau hynny;
- gweithredu cylchoedd datblygedig newydd ar gyfer cynllunio cyllideb, gwasanaeth a capasiti a fydd yn sicrhau bod gweithgareddau yn gyson ac yn lleihau'r effaith ar ein hadnoddau ar gyfer tasgau cynllunio a llywodraethu;
- sicrhau bod ein cylch adrodd blynyddol yn addas at y diben ond nid yw'n rhoi baich sylweddol ar adnoddau;
- sicrhau llwybr clir rhwng blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad ac amcanion personol;
- gwella'r gwaith o oruchwylio a rheoli newid ar draws Comisiwn y Cynulliad gan ddod â dysgu ac arfer da at ei gilydd.

Capasiti a gallu hyblyg

Mae trydydd thema y cyfleoedd ar lefel strategol i weithio'n wahanol yn edrych ar ffyrdd o ddod â mwy o hyblygrwydd i gapasiti a gallu'r Comisiwn drwy:

Adolygiad Capasiti

- Wella hyblygrwydd a sgiliau ein gweithlu i ymateb i ofynion newidiol;
- Parhau i adolygu a herio strwythurau a systemau presennol gyda'r bwriad o ddatblygu opsiynau ar gyfer ffyrdd gwell o weithio;
- Cyflawni'r manteision o optimeiddio'r defnydd o dechnolegau presennol a newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Strategaeth Pobl ddiweddaraf i'r Cynulliad. Bydd hyn yn adlewyrchu'r angen i greu gweithlu mwy hyblyg. Byddwn yn sicrhau, drwy'r strategaeth hon, ein bod yn datblygu ein sgiliau a'n gallu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion heddiw.

Bydd angen i ni ystyried a yw'r patrymau gwaith sydd wedi esblygu dros amser yn parhau i fod yn effeithiol wrth ateb y galw sydd ar staff y Comisiwn, neu a fyddai cyflwyno newidiadau yn arwain at fanteision i'r sefydliad ac i unigolion.

Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad barhau i adolygu a herio strwythurau gwasanaeth, systemau, trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol presennol, i ddatblygu ffyrdd gwell o weithio sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Yn ystod yr Adolygiad Capasiti, siaradwyd ag Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn, i gasglu syniadau ar gyfer newid. Yn ogystal â'r pedair prif thema a drafodir yma, awgrymwyd nifer o syniadau newid a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosesau hefyd. Roedd tri awgrym yn amlwg gan fod llawer iawn wedi nodi sylwadau am y rhain, sef:

- Galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy hysbys ynghylch trefnu eu gwaith pwyllgor, drwy ddarparu gwybodaeth fwy rheolaidd a manwl am oblygiadau adnoddau y penderfyniadau hyn;
- Adolygu trefniadau cymorth o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer pwyllgorau, i sicrhau bod holl adnoddau'r Comisiwn sy'n cefnogi gwaith Pwyllgorau yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl;
- Sicrhau bod y sgiliau, y capasiti, y prosesau a'r dechnoleg ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol ar waith.

Ar draws pob gwasanaeth, nodwyd bod angen sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg gwybodaeth sydd ar gael i'r Cynulliad. Roedd hyn yn

Adolygiad Capasiti

arbennig o wir ar gyfer y gallu i gydweithio a rheoli dogfennau sydd ar gael drwy Office 365 a SharePoint.

Cam Gweithredu 4

Mae newidiadau eithriadol ac eang i amgylchiadau, fel cynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad, yn gofyn am asesiad pellach o gapasiti gofynnol y Comisiwn. Fodd bynnag, fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i aros o fewn ei ffigur sefydliad presennol o 491 am hyd y Pumed Cynulliad.

Ar hyn o bryd, gyda'r ymrwymiad i weithio o fewn y ffigur sefydliad ac yn sgil blaenoriaethau newydd y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu, bydd y Grŵp Llywio yn cynnal dadansoddiad manwl pellach o'n strwythurau sefydliadol a'n harferion gwaith ac yn gwneud argymhellion i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol yn sgil gofynion yn y dyfodol.

Byddwn yn argymhell bod Comisiynau yn y dyfodol yn cynnal ymarfer Adolygiad Capasiti tebyg ar ddechrau pob Cynulliad i'w galluogi i gynllunio'n effeithiol a sicrhau y gellir cyflawni eu strategaethau.

Cam Gweithredu 5

Byddwn yn parhau i adolygu a herio systemau presennol a datblygu opsiynau ar gyfer ffyrdd gwell o weithio. Bydd y rhaglen barhaus hon o welliant parhaus yn cael ei rheoli drwy'r Grŵp Llywio. Mae'r Adolygiad Capasiti wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer ymchwiliadau cychwynnol.

Byddwn yn adolygu:

- Trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol;
- Y ffyrdd yr ydym yn galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch trefnu eu gwaith pwyllgor a manylion ac amllder gwybodaeth a ddarparwn iddynt sy'n amlinellu goblygiadau adnoddau y penderfyniadau hynny;
- Adolygu trefniadau cymorth o ddechrau'r broses i'r diwedd ar gyfer pwyllgorau;
- Ein dulliau cyfathrebu mewnol ac allanol a sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer hyn.



Datblygu dealltwriaeth gyffredin

Y thema newid strategol olaf sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad yw datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddiben a swyddogaethau Gwasanaethau'r Comisiwn, er mwyn sicrhau:

- dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau ar draws timau yn fewnol a chydag Aelodau, eu swyddfeydd a rhanddeiliaid eraill;
- disgwyliadau o'r pwyntiau dylanwad pwysig i gael eu rheoli o fewn cyd-destun blaenoriaethau'r Comisiwn;
- Datblygu ethos un sefydliad gan sicrhau ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth a chyfrifoldeb.

Gall diffyg dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau newidiol gwasanaethau'r Comisiwn arwain at aneffeithlonrwydd yn fewnol a rhwng Aelodau, eu swyddfeydd a'r timau mewnol hyn.

Nododd staff cymorth Aelodau nad ydynt yn gwbl ymwybodol o rolau rhai o'r timau yn y Comisiwn. Awgrymwyd cael pwyntiau cyswllt 'siop un stop' a fyddai'n arbed amser i Aelodau Cynulliad a'u staff yn lle gorfod cysylltu â sawl adran am faterion tebyg.

Mae gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch defnyddwyr a'u hanghenion yn fwy cost effeithiol gan helpu mwy o bobl i gael y canlyniad gorau i'w hunain ac i'r Cynulliad. Dywedodd staff cymorth Aelodau y siaradwyd â nhw eu bod wir yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys yng nghyfnod cynllunio gwasanaethau a gallu trafod beth sydd ei angen arnynt gyda staff y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Nodwyd ym mhob achos bod ymgysylltu'n gynnar wedi arwain at ganlyniadau gwell iddyn nhw a'r Aelodau.

Bydd gwella eglurder cyfrifoldebau, llwybrau clir yn ein gwaith cynllunio a blaenoriaethau clir yn hybu diwylliant 'un sefydliad' y Cynulliad. Bydd camau pellach i wella dulliau cyfathrebu â staff, rhannu gwerthoedd sefydliadol a grymuso'r bobl gywir i wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun ein blaenoriaethau yn gwella'r diwylliant hwn.

Adolygiad Capasiti

Can Gweithredu 6

Byddwn yn cymryd camau i wella dulliau cyfathrebu â staff a rhanddeiliaid eraill. Cyfathrebu ac atgyfnerthu cyfrifoldebau timau a grymuso'r bobl gywir i wneud penderfyniadau o fewn cyd-destun cyfres glir o flaenoriaethau.

Bydd cwblhau'r camau hyn yn helpu i gyfrannu at well undod pwrpas a chyfeiriad ar draws y sefydliad gan fod yn sylfaen ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.


Camau Nesaf

Yn ystod cam nesaf yr Adolygiad Capasiti, byddwn yn datblygu ein dulliau i gyflawni'r heriau nesaf, y mae nifer ohonynt yn aneglur ar hyn o bryd, fel effaith Brexit a diwygio etholiadol posibl.

Bydd y Grŵp Llywio yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau a bydd yr aelodaeth yn dod o bob rhan o Gomisiwn y Cynulliad. Erbyn mis Mai 2018, bydd gan y Grŵp Llywio gynllun ar waith i ddatblygu prif elfennau'r gwaith. Bydd y Grŵp yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Comisiwn.

Adolygiad Capasiti

Atodiad A. Cyfwerth ag Amser Llawn Comisiwn y Cynulliad 2007 i 2017



FTE ar Ddiwedd Blwyddyn yn ôl Gwasanaeth (wedi talgrynnu)

Adolygiad Capasiti

Gwasanaeth	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	Sept 2017
CAMS	21	24	25	33	27	17	33	36	39	32	32
Cyfreithiol	7	8	9	9	10	9	12	12	12	13	14
Adnoddau Dynol	19	24	24	14	12	22	32	28	26	31	29
EFM	27	31	32	29	25	28	25	26	29	28	30
Cyllid	20	19	16	15	15	16	12	16	16	12	13
TGCh	13	17	17	14	18	17	20	37	41	43	43
Ymchwil	33	37	35	33	35	35	33	36	38	40	40
TCS	20	25	26	23	22	23	17	20	22	24	23
RS	33	34	34	33	37	36	38	37	40	42	44
PLCS	26	28	28	25	25	25	26	28	27	33	32
Cyfathrebu	38	43	27	31	25	25	25	23	23	23	27
Diogelwch	56	56	59	49	59	60	58	61	61	66	65
Udlywodraethu ac Archwilio					14*	17	13	14	13	14	14
Uned Gydgyssylltu							4	5	6	6	6
FoH / PAVVS			21"	19	23	26	23	24	24	23	26
STS							4	8	9	10	14
Cyfanswm	312	346	352	327	346	358	375	411	426	441	454

*rhan o'r uned gorfforaethol yn CAMS o'r blaen

#wedi'i grwpio â Chyfathrebu o'r blaen

Adolygiad Capasiti

Atodiad B. Meincnodi Seneddau Dwyieithog:

Cymharu Gwasanaethau Cofnodi, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd, Rhagfyr 2017

Sefydliad	Aelodau	Gwasanaethau dwyieithog	Adnoddau
<p>Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen y pecyn 88</p>	60	<ul style="list-style-type: none"> – Cymraeg a Saesneg dwyieithog (y ddwy yn leithoedd Swyddogol o dan Ddeddf 2012) – Dogfennau gweithdrefnol cyhoeddedig ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd – Holl Fusnes y Cynulliad yn cael ei gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg a chyfieithu ar y pryd ar gael mewn digwyddiadau ar gais – Holl ddogfennau mewnol a phreifat ar gael yn y dewis iaith – Cofnod y Cyfarfod Llawn yn gwbl ddwyieithog – Trawsgrifiadau Pwyllgor yn yr iaith y siaredir gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu – Gwefan cwbl ddwyieithog – Systemau meddalwedd â rhyngwynebau dwyieithog lle y bo'n ymarferol. 	<ul style="list-style-type: none"> – Cymysgedd o staff arbenigol ac aml-sgil yn gallu gweithio ar draws un neu fwy arbenigedd. 47 o swyddi sefydliad wedi'u rhannu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ 9 Rheolwr, Cynllun leithoedd Swyddogol a swyddi datblygu sgiliau Cymraeg ○ 16 Golygydd ○ 7 Golygydd / Cyfieithydd ○ 1 Uwch-gyfieithydd ar y pryd ○ 6 Golygydd/ Cyfieithydd / Cyfieithydd ar y pryd ○ 8 Cyfieithydd – Yn ogystal, mae cyfieithu cofnod llawn y Cyfarfod Llawn yn cael ei rhoi allan ar gontract am gost o tua £180k y flwyddyn

Adolygiad Capasiti

Sefydliad	Aelodau	Gwasanaethau dwyieithog	Adnoddau
Senedd yr Alban	129	<ul style="list-style-type: none"> – Iaith y gwaith yw Saesneg, mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban (SPCB) o dan ddyletswydd gyfreithiol i wneud a datblygu darpariaeth Gaeleg. – Gellir defnyddio Gaeleg mewn trafodion seneddol ar ôl rhoi rhybudd a darperir cyfieithu ar y pryd. Mae'r Cofnod Swyddogol yn yr iaith y siaredir gyda thrawsgrifiad o gyfieithu ar y pryd Saesneg ar gyfer unrhyw Gaeleg a siaredir. – Gwefan dwyieithog (ar y cyfan) 	<ul style="list-style-type: none"> – Cofnod Swyddogol: Gofynnwyd am nifer y staff a swm y gyllideb gan fod data meincnodi wedi'i ddarparu ar lefel cyfarwyddiaeth – 1 x Swyddog Datblygu Gaeleg cyfwerth ag amser llawn – Darperir gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd drwy ddau gontract allanol sy'n cyfateb i tua £105k y flwyddyn
Tudalen Dynulliad Deddfwriaeth ol Ontario Decyn 89	107	<ul style="list-style-type: none"> – Saesneg a Ffrangeg – Cofnod Swyddogol yn yr iaith a siaredir yn unig, ni chaiff ei gyfieithu – Darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd y Tŷ a pwyllgorau sy'n cael eu darlledu – Dogfennau'r Tŷ (e.e. Pleidleisiau a Thrafodion, Gorchmynion a Hysbysiadau) ar gael yn Saesneg a Ffrangeg a ddarperir gan wasanaethau cyfieithu arbenigol – Gwefan cwbl ddwyieithog 	<ul style="list-style-type: none"> – Staff cofnodi: 21 amser llawn a 6 ar alwad, cymysgedd o Saesneg yn unig a siaradwyr Saesneg / Ffrangeg – Staff cyfieithu ar y pryd: 6 amser llawn yn ogystal â chyfieithwyr ar y pryd llawrydd fel y bo angen – Nid yw nifer y staff cyfieithu a'r costau ar gael

Adolygiad Capasiti

Sefydliad	Aelodau	Gwasanaethau dwyieithog	Adnoddau
<p>Tŷ'r Cyffredin Canada</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen y pecyn 90</p>	334	<ul style="list-style-type: none"> - Saesneg a Ffrangeg Dwyieithog - Caiff cofnod Pwyllgorau a Chyfarfod Llawn a'r holl ddogfennau gweithdrefnol eu cyhoeddi yn y ddwy iaith - Gwefan cwbl ddwyieithog 	<ul style="list-style-type: none"> - Tua 160 o weithwyr (75% yn rhan amser) yn cynnwys cofnodi a chyfieithu ar y pryd. - Caiff yr holl waith cyfieithu ei wneud gan Swyddfa Gyfieithu ar wahân nad yw'n rhan o'r Tŷ Cyffredin. Staff y Swyddfa Gyfieithu: <ul style="list-style-type: none"> o 43 (41 cyfieithydd + 2 gweinyddol) ar gyfer Hansard (Cofnod y Cyfarfod Llawn) o 33 (31 cyfieithydd + 2 gweinyddol) ar gyfer trafodion Pwyllgorau o 41 (35 cyfieithydd + 6 gweinyddol) ar gyfer Dogfennau (heblaw am unrhyw ddogfennau sy'n deillio o'r Senedd - adroddiadau pwyllgorau, llythyrau, adroddiadau ariannol, polisiau, memos mewnol, ac ati)

Adolygiad Capasiti



By email.

09/03/2018.

Response to National Assembly for Wales Public Accounts Committee Scrutiny of Accounts 2016-17.

Dear Nick,

Thank you for sharing the work of the Public Affairs Committee in producing the Scrutiny of Accounts 2016-17 report and recommendations. I have read these with interest, both in terms of how the recommendations can support successful implementation of the Well-being of Future Generations Act as well as to how I can continually improve the reporting process of my own office.

Responses to specific recommendations raised by the Committee after consideration of my first Annual Report and Accounts are shown below and I would also like to take this opportunity to respond to two of the cross-cutting recommendations and themes within the report

Cross-cutting theme of Evaluating Schemes and Measuring Impact

Paragraph 26: *“The evaluation and monitoring of schemes was raised primarily as an issue with Sport Wales but there is a wider principle that all publicly funded bodies should apply value for money principles to projects they undertake”*

The introduction of the Well-being of Future Generations Act places a duty on many Public Bodies to set well-being objectives to contribute to our National Well-being goals, to use the sustainable development principle, and to set out the steps it will take to meet these objectives. It seems to me that the sustainable development principle therefore needs to be embedded into the design of evaluation and monitoring mechanisms. This fits well with consideration of Value for Money where this is thought of in its widest sense and not misinterpreted as short-term cost savings.

My team are supporting and encouraging Public Bodies to embed the sustainable development principle into the design phase of projects and services. Two guidance documents have been produced – the Future Generations Frameworks for projects and infrastructure and a joint framework with Welsh Government for service design. Both are aimed at supporting Public Bodies (and others) to design projects and services that help evaluate and maximise contribution to our national Well-being Goals and together with Value for Money considerations provide a solid basis for evaluating and measuring the impact of schemes, using the five ways of working set out within the Sustainable Development principle.

Cross-cutting theme of Reserves/Cash Policy

Recommendation 4: We recommend that the Welsh Government give consideration to the different approaches to reserves policies for its sponsored bodies particularly given the greater flexibility afforded to it by the new Wales Reserve from 2018-19.

We welcome and support this recommendation which aligns with the Well-being of Future Generations Act requirement for Public Bodies to adopt the sustainable development principle and, in particular, demonstrate how they are budgeting and planning for the long term. Allowing greater flexibility would support this approach.

Recommendations specific to the Future Generations Commissioner for Wales

Recommendation 5: The Committee recommends that the Future Generations Commissioner for Wales includes in future annual reports and accounts information about the performance of their office against objectives.

Accepted. Year one was primarily concerned with setting my strategic vision and I reported on my progress against the four strategic purposes as set out in my strategic plan. In future annual reports I will provide information on my organisation's performance against five strategic performance measures.

Recommendation 6: The Committee recommends that the Future Generations Commissioner for Wales provides the Committee with an update on the implementation of her recommendations to other organisations in future annual reports to enable monitoring implementation.

Accepted. An update will be included in my 2017-18 Annual Report.

Recommendation 7: The Committee recommends that the Future Generations Commissioner for Wales's office evaluates the high proportion of secondments within her workforce within two years (January 2020) to consider whether it is impacting on the organisation's outputs and efficiency.

I have a very broad statutory remit and a modest budget with which to resource my Office. I elected to make permanent appointments to core roles where I believe there is a clear and ongoing business need for continuity. Secondments and collaborative partnerships are proving to be a smart way to resource efficiently because they allow me to draw in knowledge, skills and experience for projects and programmes of work that have a finite lifespan, they bring fresh perspective into the mix and deepen our collective understanding and connections with partnership organisations. Secondments can also be a good way to resource shared agendas, sometimes without financial cost to my Office.

Working with others through partnerships, collaborations and secondments is a long-term policy and will be a key way in which I will discharge my statutory duties (and is a key element of the Sustainable Development principle defined within the Act). I will evaluate and update on its impact on my organisation's outputs and efficiency as part of the annual reporting process.

Recommendation 8: The Committee recommends that the Future Generations Commissioner for Wales illustrates to the Committee the impact of her agile working environment and promotes any good practice she identifies.

Noted. I will include an illustration in my 2017-18 Annual Report.

Recommendation 9: The Committee recommends the Future Generations Commissioner for Wales revisit the disclosure of remuneration for senior staff, ensuring that it sets out information to enable direct comparison of the level of remuneration paid to the Directors within the Office of the Future Generations Commission for Wales and employed by other bodies.

Accepted and noted for 2017-18 note to the Accounts.

Thank you for the opportunity to respond to the report.

Yours sincerely,



Sophie Howe



Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth SY23 3BU

un o lyfrgelloedd mawr y byd
one of the great libraries of the world

Ffôn/Tel: +44 (0) 1970 632800
Ffacs/Fax: +44 (0) 1970 615709
Ebost: www.llgc.org.uk/holi
Email: www.llgc.org.uk/enquire
www.llgc.org.uk

8 Mawrth 2018

Annwyl Nick

Diolch i chi am adroddiad y Pwyllgor sydd wedi cael ei drafod gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a rheolwyr y Llyfrgell. Amgaeaf ymateb i'r tri argymhelliad sy'n ymwneud â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion nodwyd yn Adroddiad Llywodraethu a Pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru (2016) ac, yn wir, mae hyn yn adlewyrchu ein trafodaethau cadarnhaol iawn ein hunain gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar y cynnydd ers 2015.

Fodd bynnag, roedd yr Ymddiriedolwyr yn siomedig gydag argymhelliad PAC 21 yn ymwneud â rheoli Cynllun Pensiwn y Llyfrgell. Er bod y Bwrdd bob amser wedi cydnabod bod hyfywedd y cynllun yn gofyn am wylidwriaeth gyson ac efallai y bydd angen newidiadau yn y dyfodol, fel y cynghorir gan actiwariaid y Llyfrgell, nid ymddengys fod yr argymhelliad yn cydnabod nad oes unrhyw gyfatebolrwydd uniongyrchol rhwng rheoli dyledion y cynllun pensiwn a chostau yn y dyfodol a lefel yr arian a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Caiff y penderfyniad a yw'r cynllun presennol yn gynaliadwy ei hadolygu bob tair blynedd gan actiwariaid y Llyfrgell. Mae eu cyngor dilynol yn hysbysu'r penderfyniadau a wneir gan yr ymddiriedolwyr pensiwn. Nid yw cyllid Lywodraeth Cymru yn ganolog i'r broses reoli barhaus hon. Os yw lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn sylweddol yn y dyfodol, byddai'r cynllun pensiwn presennol yn cau a byddai cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd yn ei le. Rwyf wedi rhoi eglurhad manwl gyda'r llythyr hwn yn amlinellu'r sefyllfa a gobeithio y bydd o gymorth i aelodau'r Pwyllgor.

O ran argymhelliad PAC 22, efallai yr hoffech nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cefnogi'r broses gynllunio pedair blynedd a gynhaliwyd gan y Llyfrgell i gynhyrchu'r Cynllun Strategol presennol. Mae'n ofynnol i'r holl brosesau cynllunio ymlaen llaw wneud rhagdybiaethau cynllunio ac, yn achos y Llyfrgell Genedlaethol, mae'r cynllun presennol a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn amlinellu'r amcanion sydd i'w cyflawni gyda'r llinell sylfaen referniw presennol a gytunwyd yn ddangosol tan 2020. Os bydd y cyllid yn cael ei leihau yn ystod 2020/21, bydd angen i'r Llyfrgell gytuno gyda Llywodraeth Cymru pa wasanaethau craidd na fyddai'n cael eu darparu a lefel y diswyddiadau gorfodol cysylltiedig i'w gweithredu. Mae'r Llyfrgell eisoes yn arwain y sector wrth ddatblygu'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol, cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a llyfrgelloedd eraill ac yn barod i dderbyn y rôl o weithredu fel archif cenedlaethol yn absenoldeb gwasanaeth strategol. Fodd bynnag, os yw



Cymru i gefnogi gwasanaeth Llyfrgell Genedlaethol fywiog ac effeithlon, mae cost yn gysylltiedig â hyn.

Mae'r Llyfrgell wedi bod yn rheoli lefel gostyngiad o grant gan Lywodraeth Cymru am gyfnod sy'n cyn-ddyddio'r cyfnod anodd presennol. Yn nhermau arian parod, mae bellach yn derbyn yr un faint ag yn 2006, sef gostyngiad o rhwng 30% a 40% mewn termau real. Trwy dorri'i gostau a chodi ei incwm, mae wedi llwyddo i gydbwyso'r gyllideb flynyddol.

Fel y nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae'r Llyfrgell wedi colli traean o'i weithlu ers 2014. Mae'r Bwrdd a minnau'n ystyried bod y gwaith i barhau i ddatblygu gwasanaethau digidol uchelgeisiol i bobl Cymru mewn amgylchedd ariannol heriol yn dangos rheolaeth ganmoladwy o adnoddau presennol gan y Tîm Gweithredol. Mae'r tabl canlynol yn darparu cymharydd ariannu gyda Llyfrgell Genedlaethol yr Alban sydd â llai o gyfrifoldebau craidd na'r Llyfrgell a chasgliadau llai.

Cyllid y Llywodraeth 2017/18	LIGC	NLS
Grant Cymorth (Cyllid Refeniw)	£9.585m	£13.180m
Cronfa Brynu	£200k	£1m

Mewn perthynas ag argymhelliad PAC 23, amgaeaf amserlen amlinellol o weithgareddau i gyflawni ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu sy'n cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur cydnabyddedig y Llyfrgell, FDA, PCS a Prospect. Fel yr amlinellir yng Nghynllun Strategol y Llyfrgell, mae disgwyl cwblhau hyn erbyn Rhagfyr 2018.

Byddwn yn croesawu cyfle i drafod argymhellion yr adroddiad gyda chi fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir



Rhodri Glyn Thomas

Llywydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Argymhelliad PAC 21

Rydym yn argymhell y dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru adolygu ei gynllun pensiwn fel mater o frys a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y gall weithredu Cynllun sy'n gynaliadwy yn y tymor hir o gofio'r llymder parhaus a phwysau ar arian cyhoeddus.

Cefndir

Mae Cynllun Pensiwn y Llyfrgell yn gynllun Budd Diffiniedig (DB) ac yn Gynllun Cyflog Terfynol. Mae wedi bod ar waith ers 1975 pan ddisodlodd y trefniadau pensiwn blaenorol a chymerodd ddyledion y trefniadau blaenorol. Gweithredir y Cynllun Pensiwn fel ymddiriedolaeth ac fe'i llywodraethir gan fwrdd ymddiriedolwyr annibynnol a benodir o'r aelodau ac o Fwrdd y Llyfrgell. Mae'r Cynllun yn gynllun "a ariennir", sy'n golygu ei fod yn dal buddsoddiadau y mae'n ei ddefnyddio i dalu buddion pensiwn. Mae hyn yn wahanol i lawer o gynlluniau sector cyhoeddus sydd "heb eu hariannu" (megis Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)) lle na gedwir unrhyw asedau.

Cynaliadwyedd y cynllun

Mae sefyllfa ariannol y Cynllun yn ddarostyngedig i brisiad tair blynedd gan ei Actwari annibynnol. Mae cyfrifoldebau a dyletswyddau'r Actwari wedi'u nodi mewn statud (Deddf Pensiynau 1995). Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016, ac at ddibenion monitro cyflawnir cyfrifiadau interim bob chwe mis wedi hynny. Ar 31 Mawrth 2016 aseswyd bod y Cynllun yn 99.4% wedi'i ariannu; cyn hynny ar 31 Mawrth 2013 roedd hyn yn 100%. Mae'r prisiadau interim a gynhaliwyd ers prisiad 2016 yn nodi bod y Cynllun yn parhau i gael ei ariannu'n llawn, neu gydag ychydig o warged ym mis Medi 2017.

Yn y prisiad yn 2016 nododd yr Actwari ddau brif fater: dyledion hanesyddol a chost gwasanaeth yn y dyfodol.

Dyledion Hanesyddol

Roedd lefel cyllido'r Cynllun wedi gostwng ychydig o 100% i 99.4% ac roedd y dyledion hanesyddol ychydig yn uwch na'r asedau a ddelir o £400K. Cytunodd y Llyfrgell i wneud cyfraniadau diffyg o £32K y flwyddyn am y 3 blynedd hyd at y prisiad tair blynedd nesaf. Gyda phob cynllun pensiwn budd-dal diffiniedig a ariennir, mae'r cyflogwr yn agored i'r risg y bydd dyledion hanesyddol yn tyfu'n gyflymach na'i hasedau a bydd diffyg yn codi. Y ddau brif risg sy'n effeithio ar werth asedau a dyledion yw enillion ar fuddsoddiadau a hirhoedledd yr aelodau. Felly, wrth fynd i'r afael ag argymhelliad y PCC fod y Cynllun yn "gynaliadwy yn y tymor hwy", ni all y Llyfrgell newid y dyledion hanesyddol sydd wedi cronni am fwy na 40 mlynedd, a bydd yn parhau i fynd i'r afael â'r dyledion hyn trwy wneud taliadau diffygion er mwyn ariannu'r bwlch hwn os yw dyledion yn fwy nag asedau. Fodd bynnag, mae ymddiriedolwyr y Cynllun, mewn cytundeb â Bwrdd y Llyfrgell, wedi gwneud newidiadau yn ddiweddar i'r trefniadau rheoli ar gyfer asedau'r Cynllun, sydd gwerth tua £70 miliwn ar hyn o bryd. Penodwyd Blackrock yn dilyn proses gystadleuol i weithredu trefniant rheoli ymddiriedol. Er bod asedau'r Cynllun wedi cynyddu dros chwarter ers prisiad 2016, roedd y rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol wedi newid a dylai trefniant rheoli ymddiriedol fod mewn sefyllfa well i reoli asedau'r Cynllun yn yr amgylchiadau mwy ansefydlog a ragwelir.

Cost gwasanaeth yn y dyfodol

Nododd yr Actwari ym mhrosiad 2016 y byddai cost cronni gwasanaeth yn y dyfodol yn cynyddu a bod cyfanswm cyfraniad o 30.2% yn ofynnol. Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr y camau y gellid eu cymryd ac, mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell, cynigwyd yr opsiwn i'r staff o naill ai talu 3% yn fwy i'r Cynllun i gadw oedran ymddeol o 60, neu y byddai gweddill eu gwasanaeth yn cynyddu i oedran ymddeol o 65. Roedd ychydig dros hanner y staff yn dewis talu mwy o gyfraniadau. Fel rhan o'r ymarfer hwn, ystyriodd yr Ymddiriedolwyr hefyd symud y Cynllun o gyflog terfynol i enillion ailbriso cyfartalog gyrfaol (career average revalued earnings - CARE). Fodd bynnag, ni fyddai'r gostyngiad yn y gost o tua 1% o wneud hyn wedi bodloni'r cynnydd mewn costau a nodwyd gan yr Actwari yn y prisiad tair blynedd, a byddai hefyd wedi gwneud y Cynllun yn fwy cymhleth (ac felly'n gostus) i'w weinyddu.

Mae prisiad nesaf y Cynllun yn ddyledus ar 31 Mawrth 2019 ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwyddion bod sefyllfa ariannol y Cynllun wedi newid yn sylweddol i achosi i'r Llyfrgell weithredu. Fodd bynnag, pe bai'r prisiad yn nodi gwaethygu ymhellach yng nghost cronniad y dyfodol, yna mae nifer o opsiynau y gallai'r Llyfrgell eu cyflwyno i'r staff i reoli'r costau: cynyddu oedran ymddeol ymhellach, cynyddu cyfraniadau staff, neu newid y gyfradd gronni.

Adolygiad o'r Cynllun gan Fwrdd y Llyfrgell

Ar adegau amrywiol yn ystod y gorffennol, mae'r Llyfrgell wedi ystyried sut y gall reoli risgiau'r cynllun pensiwn orau, sawl blwyddyn cyn comisiynu adroddiad Hutton. Dros yr 20 mlynedd diwethaf mae'r Llyfrgell wedi gwella'r sefyllfa gyllido o ychydig dros 60% i gael ei ariannu'n llawn, gan ei wneud ar hyn o bryd yn un o'r cynlluniau pensiwn cyhoeddus a gyllidir orau. Mae'r rhagdybiaethau cyllido y tu ôl i'r cynllun yn gymharol ddarbodus o'i gymharu â chyffredinrwydd cynlluniau pensiwn cyhoeddus, ond yn gymharol optimistaidd mewn perthynas â llawer o gynlluniau'r sector preifat. Dylid nodi bod y Cynllun wedi cael Gwarant y Goron yn 2003 sy'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch risgiau ariannu yn y dyfodol. Yn gynnar / yng nghanol y 2000au, agorodd y Llyfrgell drafodaethau gyda'r Trysorlys i weld a oedd hi'n bosibl symud aelodau'r Cynllun i'r PCSPS. Fodd bynnag, ar y pryd, methodd y cynllun i symud ymlaen ymhellach oherwydd y diffyg cymharol fawr a oedd yn bodoli yn y Cynllun ar y pryd.

Mae Cynllun y Llyfrgell yn gynllun sector cyhoeddus eithaf safonol a weithredir ar sail cronniad 80au gyda chyfandaliad 3 / 80fed: nid yw ei fuddion yn arbennig o afresymol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus ac yn sicr nid yw'n rhy hael. Un o'r newidiadau a wnaed ar ôl adroddiad Hutton i'r PCSPS oedd lleihau'r gyfradd gronni i'r 60au, ond gyda chyfandaliad yn cael ei brynu allan. Ystyriodd y Llyfrgell y newid hwn ar gyfer ei Gynllun ei hun, ond yr asesiad oedd y byddai hyn ar y gorau yn niwtral o ran cost, neu'n fwy tebygol o gynyddu costau ychydig. Felly, yn y cyswllt hwn, mae'n debyg bod y Cynllun yn llai hael na'r PCSPS.

Mae Bwrdd y Llyfrgell wedi monitro risgiau'r Cynllun yn gyson ac ystyriodd yr opsiwn o gau'r Cynllun i newydd-ddyfodiaid yn 2017. Pe bai'r Llyfrgell yn dewis gwneud hyn, yna byddai costau gweithredu'r Cynllun yn cynyddu dros amser wrth i'r aelodau heneiddio a dynesu at oedran ymddeol, ac roedd yn rhaid pwysu hyn yn erbyn y risgiau o gadw'r Cynllun yn agored a chaniatáu

i newydd-ddyfodiaid gronni gwasanaeth. Penderfynodd y Llyfrgell fabwysiadu'r ail ddewis o gofio, pe bai'n dewis yr opsiwn cyntaf y byddai'n rhaid iddo gyflwyno Cynllun Cyfraniad Diffiniedig (DC), ar gost llawer is o lawer er mwyn gwrthbwysu'r cynnydd mewn cyfraniadau ar gyfer Cynllun caeedig. Ar ben hynny, byddai hyn wedi bod yn groes i'r cyfarwyddyd mewn Llythyr Cylch Gorchwyl 2017/18 y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru i'r Llyfrgell ystyried y materion sy'n gysylltiedig â alinio, cyn belled ag y bo modd, telerau ac amodau'r staff â rhai'r Gwasanaeth Sifil.

Casgliad

Nid yw cyflogwr sy'n gweithredu cynllun DB mewn sefyllfa i warantu fod y cyllid yn gwbl ddiogel. Fodd bynnag, mae cynllun y Llyfrgell:

- yn gynllun a ariennir, yn wahanol i lawer o'r prif gynlluniau sector cyhoeddus;
- gyda lefelau cyllido cymharol uchel ar gyfer cynllun sector cyhoeddus;
- wedi defnyddio rhagdybiaethau rhesymol i asesu ei sefyllfa ariannol;
- wedi negodi newidiadau sylweddol i'r Cynllun yn ddiweddar gyda'r aelodau i leihau cost gwasanaeth yn y dyfodol;
- wedi rheoli risgiau'r Cynllun yn rhagweithiol o ran ei bortffolio buddsoddi sylweddol a'r risg buddsoddi cysylltiedig;
- yn barod i weithredu ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r prisiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2019 o ran cronïad gwasanaeth yn y dyfodol, a
- wedi'i adolygu'n rheolaidd gan Fwrdd y Llyfrgell mewn perthynas â'i gynaliadwyedd ar adegau amrywiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn fwyaf diweddar yn hydref 2017.

O ran y cyfeiriad at lymder parhaus a phwysau ar gyllido cyhoeddus, mae hyn yn fater braidd yn wahanol i gyllid hirdymor cynaliadwy'r Cynllun mewn perthynas â'i asedau a'i ddyledion. Mewn sefyllfa lle mae Grant Cymorth y Llyfrgell yn cael ei dorri yn sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yna mae'n debygol y bydd y Llyfrgell yn cau'r cynllun DB presennol a symud staff i opsiwn Cyfraniadau Diffiniedig lle byddai cost cyfraniad y cyflogwr yn sylweddol is, ac mae'r holl risgiau buddsoddi a hirhoedledd yn cael eu trosglwyddo i'r aelodau. Byddai hyn yn gam radical a fyddai'n anodd cytuno â'r staff, ac eto, yn groes i nod datganedig y Llywodraeth i gefnogi alinio telerau cyflogaeth gyda'r Gwasanaeth Sifil a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Argymhelliad PAC 22

Rydym yn pryderu nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cydnabod yn llawn heriau a goblygiadau gostwng cyllid yn y dyfodol ac rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir ei gynlluniau senario ar gyfer y dyfodol ynghylch sut mae'n bwriadu ymateb i'r gostyngiad hwn mewn cyllid.

Cefndir

Mae'r Llyfrgell, yn fwy na'r rhan fwyaf o gyrff yn y sector cyhoeddus, wedi cael profiad dros gyfnod hir o leihau cyllidebau, sawl blwyddyn cyn y cyfnod "llymder" gyfredol. Nid yw'r her o leihau cyllidebau yn brofiad newydd i'r Llyfrgell. Mae'r Grant Cymorth Refeniw (GIA) bellach yn £9.585m - yr un lefel arian ag yr oedd yn 2006; gostyngiad o 30% -40% mewn termau real. Roedd y toriadau llymder yn lleihau'r gyllideb gyfalaf o 40% a'r Grant Prynu Casgliadau o 50%. Mae'r

rhain yn doriadau sydd wedi bod yn hynod o anodd ymdopi â nhw, ond mae'r Llyfrgell wedi llwyddo i ostwng ei gostau - yn bennaf trwy leihau nifer y staff - i fod yn gymesur â'i incwm.

Rheolaeth Ariannol

Ar wahân i'r gostyngiad mewn cyllidebau, un o'r heriau mwyaf i'r Llyfrgell fu anallu Llywodraeth Cymru i ddarparu unrhyw fath o gyllidebau dangosol tymor canolig. Am 4 blynedd, dim ond cyllidebau am flwyddyn ar y tro a ddarparwyd i'r Llyfrgell: mae hyn wedi gwneud cynllunio ar gyfer y tymor canolig, hyd yn oed, yn anodd iawn (fel y nodwyd yn Adroddiad SAC). Darparwyd cyllidebau dangosol i'r Llyfrgell hyd at 2019/20, ac mae'r rhain yn dangos y bydd y Grant Cymorth yn parhau'n wastad dros y cyfnod hwn. Felly, mae'r Llyfrgell wedi seilio ei gynlluniau ar y dybiaeth resymol o Grant Cymorth fflat. Bydd unrhyw newid sylweddol i'r gyllideb yn 2020/21 yn gofyn am drafodaeth ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru a bydd gwasanaethau craidd yn cael eu colli a lefel y diswyddiadau gorfodol cysylltiedig.

Gan mai cyflog yw 75% o gyllideb refeniw'r Llyfrgell, mae costau gweithredu yn arbennig o sensitif i unrhyw newidiadau. Felly, mae'n siomedig nodi bod trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cylch Gwaith Cyflog y Llyfrgell yn parhau'n hwyr iawn. Er enghraifft, ni roddwyd y Cylch Gwaith Cyflog o 1 Ebrill 2017 i'r Llyfrgell tan fis Hydref 2017, ac yn hytrach na chost 1% y flwyddyn y mae'r Llyfrgell wedi'i ddisgwyl i ddechrau, bydd y gost gyffredinol i'r Llyfrgell o 2% o godiad neu £1k dros 2 flynedd oddeutu 4.5%. Os yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Llyfrgell ddilyn Cylch Gwaith Cyflog Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg y bydd angen iddo newid y mecanwaith cynllunio presennol. Yn ddiweddar, derbyniodd y Llyfrgell gyllid dros dro i dalu am y dyfarniad cyflog cyfredol, ac mae wedi gofyn am drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer derbyn unrhyw gyngor ymlaen llaw yn berthnasol i ddyfarniad cyflog nesaf y sector cyhoeddus sy'n ddyledus ar 1 Ebrill 2019. O gymharu, rhoddwyd Grant Cymorth llinell sylfaen i Lyfrgell Genedlaethol yr Alban yn ystod y flwyddyn ariannol hon i ddarparu codiad o 3% ar gyfer staff.

Gostyngiadau Cost

Pe bai cyllid yn y dyfodol yn gostwng yn sylweddol, yna byddai'n rhaid canolbwyntio gostyngiadau costau ar yr elfen fwyaf o gost, sef cyflog staff. Mae cyflog staff yn gymharol isel yn y Llyfrgell, fel y nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae tâl canolrif yn £23K yn hytrach na £35K yn Llywodraeth Cymru. Mae'r gwahaniaeth yn y cyflog canolrifol yn cael ei achosi gan y ffaith bod tua 40% o staff y Llyfrgell yn ennill £20K neu lai, ac mai ychydig iawn o staff sydd mewn swyddi rheolwyr canol neu uwch. Mae strwythur staffio'r Llyfrgell yn debyg i byramid fflat iawn, ond mae gan Lywodraeth Cymru nifer fwy cyfatebol o staff ar bob gradd gyflog. Canlyniad strwythur staff y Llyfrgell o'i gymharu â Llywodraeth Cymru yw bod llai o opsiynau ar gyfer ailstrwythuro'r rheolwyr canol ac uwch yn unig, a byddai'n rhaid gwneud colledion staff ar bob lefel, ond gyda cholledion uwch yn debyg ar y graddau is lle mae'r nifer mwyaf o staff. Byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau cyhoeddus gan fod llawer o'r staff hyn yn ymwneud â darparu gwasanaethau rheng flaen.

Mae'r Llyfrgell wedi cyrraedd y sefyllfa hon oherwydd ei fod wedi bod o dan bwysau ariannol mor hir. Mae'r strwythur pyramid fflat sy'n parhau gydag opsiynau cyfyngedig iawn ar gyfer arbedion pellach mewn ymateb i doriadau cyllidebau nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar

wasanaethau craidd. Mae amddiffyn gwasanaethau i'r cyhoedd wedi bod yn flaenoriaeth yng nghynllunio'r Llyfrgell gan ei bod wedi lleihau nifer y staff o 300 i 230.

Mae'r Llyfrgell felly mewn sefyllfa gydag opsiynau cyfyngedig iawn ar gyfer lleihau costau na fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ei statws fel sefydliad cenedlaethol. Mae yna isafswm o arian sy'n ofynnol os yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cenedlaethol gael effaith a chyrhaeddiad.

Pensiynau ac incwm y tu allan i'r Llywodraeth

Mae paragraff 170 yr adroddiad eto yn cyfeirio at fater y cynllun pensiwn. Fel y nodwyd, yr unig ffordd o leihau costau pensiwn fel ymateb i ostyngiad sylweddol yn y gyllideb fyddai cau'r cynllun presennol Budd Diffiniedig (DB), a symud i gynllun Cyfraniadau Diffiniedig cost is (DC). Byddai goblygiadau mawr i'r staff yn hyn o beth, a byddai bron yn sicr yn arwain at weithredu diwydiannol niweidiol. Serch hynny, byddai'n rhaid i'r symudiad o DB i DC fod yn ystyriaeth ddifrifol pe bai toriad yn y Grant Cymorth yn ysgogi argyfwng ariannu.

Ychydig iawn o opsiynau sydd gan y Llyfrgell o ran cynyddu ffynonellau incwm tu allan i'r Llywodraeth, yn enwedig i dalu costau refeniw craidd. Bu'n llwyddiannus wrth gynyddu incwm masnachol i £700K y flwyddyn ac mae wedi gosod targed uchelgeisiol o godi incwm o weithgareddau masnachol, grantiau ymchwil a rhoddion elusennol i £1m erbyn 2021. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi llwyddo i reoli ei fuddsoddiadau cronfeydd elusennol o werth £3m yn 2009 i dros £11m yn 2018. Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo hyd at £2.5m i ariannu ei gais am £5m i Gronfa Dreftadaeth Y Loteri i sefydlu'r Archif Darlledu Genedlaethol, yn ogystal â manteisio ar yr Incwm o £300K a grëwyd gan y buddsoddiadau i ariannu prosiectau datblygu eraill. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae gallu cronfeydd elusennol i ariannu costau ychwanegol heb effeithio ar gynnaladwyedd hirdymor bellach yn agos at ei derfyn ar gyfer ymrwymadau hirdymor.

Casgliad

Pe na bai'r Llyfrgell yn cynllunio ar gyfer ac yn cydnabod heriau gostyngiadau yn y Grant Cymorth yn y dyfodol, yna byddai argyfwng ariannol wedi digwydd nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae cyllid y Grant Cymorth yn y dyfodol yn risg sy'n parhau i gael ei reoli ac fe'i cydnabuwyd fel y risg strategol pwysicaf ers dros 10 mlynedd. Mae'r opsiynau i ymateb i doriadau yn y Grant Cymorth yn y dyfodol yn gyfyngedig: byddai'n rhaid lleihau niferoedd staff, a byddai gorbenion fel y pensiwn DB dan fygythiad. Yn ychwanegol at ei reolaeth bresennol, mae'n ofynnol i'r Llyfrgell gynllunio ar gyfer cyllideb Grant Cymorth tymor hirach gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â mecanweithiau diwygiedig ar gyfer y Cylch Gwaith Cyflog os yw mewn sefyllfa i reoli ei risgiau ariannol yn y dyfodol yn llwyddiannus.

PAC 23

Rydym yn pryderu nad yw cyflymder y newid a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno cynllun Gweithlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn annigonol. Rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir ei gynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno ei gynllun fel mater o frys a'i rannu gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Amserlen Datblygu Cynllun y Gweithlu

Tasg	Cynnydd hyd yma	Cyfrifoldeb	Dyddiadau allweddol
Gweithio tuag at gysoni polisiau adnoddau dynol allweddol gyda rhai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad ag undebau llafur cydnabyddedig.	<p>Mae'r polisiau isod wedi ei ysgrifennu i gyd fynd a rhai Llywodraeth Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwyliau Blyneddol Tâl am gyfrifoldeb Toriad Gyrfa <p>(Rhannwyd y rhain efo'r Cyngor Partneriaeth – Tachwedd 2017)</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwyliau Mamolaeth/Mabwysiadau Absenoldeb Rhiant a Rennir Gwyliau Tadolaeth Gwyliau Rhieiniol 	Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth	<p>Disgwylir ymateb y Cyngor Partneriaeth i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwyliau Blyneddol Tâl am gyfrifoldeb Toriad Gyrfa <p>Cyngor Partneriaeth i ymateb erbyn 31/03/2018</p> <p>Yn barod i'w rhannu efo'r Cyngor Partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwyliau Mamolaeth/Mabwysiadau Absenoldeb Rhiant a Rennir Gwyliau Tadolaeth Gwyliau Rhieiniol <p>Cyngor Partneriaeth i ymateb erbyn 30/06/2018.</p>
	<p>Gweithredwyd newidiadau i Gynllun Pensiwn y Llyfrgell yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda'r Cyngor Partneriaeth. Rhoddwyd dewis i'r aelodau i dalu cyfraniad ychwanegol ar raddfa o 3% o'u cyflog pensiynol a chadw'r buddion NRD 60. I'r aelodau hynny na ddewisodd NRD 60 byddant yn derbyn buddion NRD 65 i'r dyfodol.</p>	Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol	Gweithredwyd 1af Gorffennaf 2017.
	<p>Fel rhan o'r trafodaethau cyflog 2017 – 2019 cytunodd y Llyfrgell i arwyddo'r Siarter "Dying to Work" erbyn Ebrill 2018.</p>	Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth	Ebrill 2018.
<p>Cytunodd y Llyfrgell hefyd i sefydlu grŵp trafod i ystyried cynnig yr Awr Llesiant i'r staff</p>	Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth	Mehefin 2018.	

<p>Gwneud asesiad cychwynnol o delerau ac amodau staff y Llyfrgell Genedlaethol a'r goblygiadau o symud hynny'n unol â thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru (Llythyr Cylch Gorchwyl 2017/18)</p>	<p>Bu i'r Uned Adnoddau Dynol gynnal asesiad o delerau ac amodau Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol a'u cymharu gyda rhai Llywodraeth Cymru.</p> <p>Rhannwyd canlyniad yr asesiad efo Llywodraeth Cymru yn Hydref 2017.</p>	<p>Tîm Gweithredol / Adnoddau Dynol</p>	<p>Cwblhawyd – Gorffennaf 2017.</p>
<p>Parhau i wella'r berthynas rhwng staff rheoli a chynrychiolwyr undebau.</p>	<p>Cynhelir cyfarfodydd dau fisol rhwng Tîm Gweithredol y Llyfrgell a'r Cyngor Partneriaeth.</p> <p>Cynhelir cyfarfod misol rhwng Uned Adnoddau Dynol y Llyfrgell a'r Cyngor Partneriaeth i drafod polisiau a thelerau ac amodau gwaith.</p> <p>Mae'r Llyfrgellydd/Prif Weithredwr yn rhannu gwybodaeth reolaidd efo'r staff trwy flogio.</p> <p>Mae'r Llyfrgellydd / Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd chwarterol efo'r holl staff.</p> <p>Mae'r Llywydd a'r Llyfrgellydd / Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd chwarterol efo Swyddogion Cenedlaethol yr Undebau Llafur.</p> <p>Rhannu'r wybodaeth efo'r staff yn fisol trwy'r Briff Craidd.</p>	<p>Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth</p> <p>Adnoddau Dynol / Cyngor Partneriaeth</p> <p>Llyfrgellydd / Prif Weithredwr</p> <p>Llyfrgellydd / Prif Weithredwr</p> <p>Llywydd / Prif Weithredwr</p> <p>Llyfrgellydd / Prif Weithredwr.</p>	<p>Yn parhau.</p> <p>Yn parhau.</p> <p>Yn parhau.</p> <p>Yn parhau.</p> <p>Yn parhau.</p>
<p>Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol i ddarparu</p>	<p>Cynhaliwyd a dadansoddiwyd Awdit Sgiliau i holl staff y Llyfrgell</p>	<p>Tîm Gweithredol Grŵp Cyflawni Adnoddau</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 30/03/2018.</p> <p>Bydd adroddiad ar y canfyddiadau a'r rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol</p>

<p>gwasanaethau o ansawdd uchel, a bod unrhyw fylchau mewn sgiliau allweddol yn cael eu nodi a'u trin yn strategol wrth gynllunio datblygiad y staff ac olyniaeth.</p>	<p>Adrodd a'r unrhyw fylchau sgiliau presennol a'r anghenion i'r dyfodol</p>	<p>Dynol</p>	<p>erbyn 31/05/2018.</p> <p>Bydd adroddiad o'r Bwlch Sgiliau a'r anghenion i'r dyfodol yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol erbyn 30/09/2018.</p> <p>NODER: Mae'r Llyfrgell ac aelodau'r Undebau Llafur yn aelodau o Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol: Grŵp Prif Ffrydio Sgiliau sydd yn edrych ar fabwysiadu strwythur sgiliau i'r sefydliadau a'r sector treftadaeth yn ei gyfanrwydd. Ar hyn o bryd y Llyfrgell yw'r unig bartner sydd wedi comisiynu Awdit Sgiliau.</p>
	<p>Polisi Cynllun Olyniaeth – rhannwyd efo'r Cyngor Partneriaeth – Rhagfyr 2017.</p>	<p>Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth</p>	<p>Disgwylir ymateb oddi wrth y Cyngor Partneriaeth erbyn 9 Mawrth 2018.</p>
	<p>Awdit Straen Mae'r Llyfrgell a'r Cyngor Partneriaeth wedi cynnal awdit straen ar wahân (er mwyn meincnodi yn erbyn canlyniadau'r blynyddoedd cynt)</p>	<p>Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth</p>	<p>Cwblhawyd. Bydd pwyntiau gweithredu o'r ddau awdit yn cael ei chyflwyno ar y cyd efo'r Uned Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth i'r Tîm Gweithredol erbyn 31/03/2018.</p>
	<p>Cyfrannu at ymarferiad cynllunio'r gweithlu efo Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus</p>	<p>Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol</p>	<p>Cwblhawyd 30/7/2017.</p>
	<p>Drafftio Strategaeth Pobl / Cynllun Datblygu'r Gweithlu mewn ymgynghoriad a'r Cyngor Partneriaeth</p>	<p>Tîm Gweithredol Adnoddau Dynol a'r Cyngor Partneriaeth</p>	<p>Yn gynnar mis Hydref 2018.</p>
<p>Cynllun Drafft Terfynol</p>			<p>I'w gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr - 23 Tachwedd 2018.</p>

12 Mawrth 2018

Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW

T / Ff 0300 300 3111

www.sport.wales

www.chwaraeon.cymru

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Nick

Diolch i chi am y cyfle i gynnig tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch craffu ar Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru 2016/17. Mae'r archwiliad a'r her bob amser yn werthfawr i'n sefydliad ni ac rwyf wedi darllen Adroddiad y Pwyllgor a'r argymhellion gyda diddordeb.

Rwyf yn amgáu ymateb Chwaraeon Cymru, yn rhoi sylw i argymhellion perthnasol y Pwyllgor (14, 15 ac 16). Mae hyn yn ychwanegol at y dystiolaeth ategol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, yn amlinellu rhaglen o adolygiadau, a grynhoir yma fel atodiad er hwylustod.

Fel y gwyddoch, mae'r ffordd ymlaen ar gyfer llawer o'r heriau mewn chwaraeon yn dibynnu ar gydweithredu a gwaith partneriaeth cadarn. Adlewyrchir yr egwyddor honno yn yr ymateb hwn ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn gywir



Sarah Powell
Prif Weithredwr

Ymateb Chwaraeon Cymru

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2016-17

Isod mae ymateb Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag Argymellion 14, 15 ac 16 o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2016-17.

Argymelliad 14. *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Chwaraeon Cymru'n rhannu canlyniadau'r gwerthusiad o'u Rhaglenni Pobl Ifanc gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer eu hystyried.*

Ymateb Chwaraeon Cymru

Byddwn yn rhannu canlyniadau'r adolygiad allanol sydd ar droed ar hyn o bryd ac a fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2018.

Mae Chwaraeon Cymru wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i'r Pwyllgor ynghylch yr amrywiaeth o adolygiadau a gwerthusiadau sydd wedi'u cynnal hyd yma o'r rhaglenni pobl ifanc. Crynhoir y rhain yn yr atodiad er hwylustod. Efallai y bydd y Pwyllgor eisiau nodi bod yr adolygiad presennol o'r rhaglenni pobl ifanc a nofio am ddim wedi'i gynllunio fel rhan o gylch cynllun busnes Chwaraeon Cymru a'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'n gwaith gwerthuso a monitro arferol. Cafodd hyn ei nodi yn ein Cynllun Busnes a gyhoeddwyd ar ddechrau 2017-18.

Cyhoeddir canfyddiadau'r adolygiadau ar wefan Chwaraeon Cymru a'u rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol ac fe'u defnyddir i ddylanwadu ar ddatblygu Strategaeth newydd i Chwaraeon Cymru.

Argymelliad 15. *Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru'n monitro effaith yr hyrwyddo ar gaeau 3G ar fynediad i gaeau o eiddo awdurdodau lleol, gan rannu canlyniadau'r monitro hwn gyda'r Pwyllgor hwn, a gweithio i sicrhau bod y cyfleusterau'n parhau mor hygyrch â phosib i bawb.*

Ymateb Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol i fonitro effaith buddsoddiad Chwaraeon Cymru ar gaeau 3G. Mae'r bartneriaeth gydweithredol hon rhwng Ymddiriedolaeth CBDC, Undeb Rygbi Cymru a Hoci Cymru wedi cael ei sefydlu er mwyn cynllunio'n strategol a darparu cyngor arbenigol i ddatblygiadau caeau artiffisial yng Nghymru. Cwblhawyd Adroddiad Gwerthuso ym mis Mawrth 2017 i fonitro effaith ac mae copi llawn ar gael os oes angen. Mae canfyddiadau crynodeb gweithredol yr adroddiad hwn yn dangos y canlynol:

Canlyniadau Allweddol

"Ddwy flynedd ers ei sefydlu, mae'r prosiect yn cyflawni ei nodau tymor byr a chanolig. Mae pedwar prosiect ar ddeg wedi cael eu cwblhau ac mae cyllid wedi cael ei neilltuo i 22 o safleoedd pellach. Mae'r astudiaethau achos a'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn dangos bod buddsoddiad wedi galluogi'r canlyniadau canlynol hyd yma:

- *Cynyddu cyfraddau cymryd rhan gyda'r defnyddwyr presennol yn cymryd rhan yn amlach a defnyddwyr newydd yn cymryd rhan yn awr.*
- *Mwy o gyfleoedd i ferched, genethod a phlant.*
- *Hyfforddwyr i arsylwi gwelliant yn lefelau sgiliau chwaraewyr a mwy o gyfleoedd i gystadlu a datblygu perfformiad.*
- *Gwell profiad i gyfranogwyr a chlybiau, a theuluoedd yn awr yn gallu defnyddio cyfleusterau o ansawdd uchel i osgoi canslo gemau a sesiynau ymarfer drwy'r amser.*

- *Rhyddhau caeau glaswellt sy'n cael eu gorddefnyddio, i'w hansawdd wella, a mabwysiadu dull mwy strategol o weithredu gyda defnydd o gyfleusterau ar draws rhanbarth.*
- *Modelau hwb clwb yn cynnig cyfleoedd aml-chwaraeon/aml-weithgarwch mewn lleoliadau canolog, gan geisio denu teuluoedd a defnyddwyr newydd fel rhan o ddarpariaeth ehangach yn gysylltiedig ag arwynebau artiffisial.*
- *Osgoi colli cyfleusterau'n llwyr, neu golli camp benodol mewn rhanbarth."*

Hefyd mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid (cyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol, awdurdodau lleol a darparwyr eraill) i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru ar gael, yn fforddiadwy ac yn hygyrch i glybiau a grwpiau cymunedol. Hefyd, yn ychwanegol at yr Adroddiad Gwerthuso a grybwyllwyd, mae gan Chwaraeon Cymru nifer o ymyriadau yn eu lle er mwyn deall effaith y caeau 3G yn well:

Mae bas data cynhwysfawr Cyfleusterau Chwaraeon Ledled Cymru wedi cael ei sefydlu. Mae'n cynnwys manylion am yr holl arwynebau chwarae artiffisial, a hefyd caeau glaswellt naturiol, yng Nghymru. Bydd y bas data'n monitro newidiadau i nifer y caeau sydd ar gael ac a oes unrhyw newidiadau mewn perchnogaeth dros amser.

Hefyd mae'r bas data hwn yn cyfrannu at ein sylfaen wybodaeth am gaeau drwy nifer o ddadansoddiadau, gan gynnwys y canlynol:

- Model Cynllunio Cyfleusterau
- Penderfynu ar Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) cyfleusterau chwaraeon adeiledig
- Gweithio gyda Phrifysgol De Cymru i edrych ar hygyrchedd i amrywiaeth o gyfleusterau, gan ddangos lle ceir tanddarpariaeth gymharol.
- Mapio data darpariaeth Arolwg 2015 ar Chwaraeon Ysgol. Mae'r gwaith hwn yn dangos ble mae caeau glaswellt a chaeau artiffisial mewn ysgolion yn agored i'r cyhoedd ar wahanol adegau o'r dydd ac ar benwythnosau.

Mae Chwaraeon Cymru'n ymgynghorai statudol ar faterion cynllunio perthnasol i newidiadau mewn darpariaeth o gaeau chwarae. Mae gan Chwaraeon Cymru gytundeb partneriaeth yn ei le gyda Fields in Trust i eirioli manteision caeau glaswellt naturiol a'u gwarchod. Mae system barhaus yn ei lle i fonitro'r gwaith hwn.

Mae Ymddiriedolaeth CBDC yn treialu gwaith gyda Chynghorau ledled Cymru i ddyfeisio Cynlluniau Cyfleusterau Lleol i bennu gweledigaeth tymor hir i warchod a denu buddsoddiad mewn cyfleusterau, yn ogystal â darbwyllo ysgolion i agor eu cyfleusterau at ddefnydd y gymuned. Mae'r egwyddor o agor cyfleusterau chwaraeon ysgolion y tu allan i oriau ysgol i ddiwallu angen cymunedol yn un mae Chwaraeon Cymru'n ei gefnogi.

Argymelliad 16. *Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru'n mynd ati i hybu a gwarchod mynediad i'r holl gyfleusterau sy'n eiddo i awdurdodau lleol ar gyfer pawb.*

Ymateb Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i hybu cyfranogiad ac annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gan sicrhau bod pawb yn gallu byw yn egniol drwy chwaraeon a gwireddu eu potensial.

Bydd Chwaraeon Cymru'n parhau i weithredu'n briodol er mwyn hybu a gwarchod mynediad i'r holl gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru ar gyfer pawb. Er mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw penderfynu ar ystod, cost a hygyrchedd y cyfleusterau chwaraeon o dan eu rheolaeth, bydd Chwaraeon Cymru'n parhau i hybu a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i warchod mynediad i gyfleusterau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol:

- Datblygu [Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egniol yng Nghymru](#) Datblygodd Chwaraeon Cymru'r ddogfen arweiniol yma gyda chefnogaeth gan y sector chwaraeon fel bod darparwyr mawr ar gyfleusterau – gan gynnwys llywodraeth leol – yn gallu cynllunio'n strategol a rheoli cyfleusterau chwaraeon yn y tymor hir
- Mae Chwaraeon Cymru'n parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i Lywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu Strategaeth Cyfleusterau Chwaraeon ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r anghenion am gyfleusterau yn y dyfodol ar lefel gymunedol ac elitaidd / perfformio
- Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru'n datblygu polisi ar sut orau i gefnogi trosglwyddo asedau'n effeithiol o ran cyfleusterau chwaraeon ar raddfa fechan (ee. caeau, pafiliynau). Yn aml, mae'r rheolaeth ar gyfleusterau chwaraeon yn cael ei throsglwyddo o ofal yr awdurdodau lleol i grwpiau cymunedol lleol ac mae Chwaraeon Cymru'n cefnogi dull o weithredu i sicrhau bod y trosglwyddo'n creu datrysiad rheoli cynaliadwy a thymor hir
- Mae Chwaraeon Cymru'n darparu cyngor cyson ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ysgolion yn datblygu cyfleusterau chwaraeon priodol ac i sicrhau eu bod yn hygyrch i grwpiau cymunedol lleol
- Mae Chwaraeon Cymru'n ymgynghorai statudol ar faterion cynllunio perthnasol i newidiadau mewn darpariaeth o gaeau chwarae. Mae gan Chwaraeon Cymru gytundeb partneriaeth yn ei le gyda Fields in Trust i eirioli manteision caeau glaswellt naturiol ac i'w gwarchod
- Mae Chwaraeon Cymru'n dosbarthu grantiau'r Loteri sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu rhagor o gyfleoedd chwaraeon mewn cyfleusterau presennol, gan gynnwys cynlluniau gwella cyfalaf ar raddfa fechan (er enghraifft, cynlluniau draenio caeau)

Rhaglenni Pobl Ifanc

1. Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig

Nod y rhaglen

Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yw'r cam nesaf ar y siwrnai llythrennedd corfforol ar ôl Chwarae i Ddysgu (3 i 7 oed). Y nod yw i bobl ifanc 7 i 11 oed wneud y canlynol:

- Parhau ar hyd eu siwrnai llythrennedd corfforol drwy ddatblygu'r sgiliau corfforol allweddol sy'n berthnasol i amrywiaeth o wahanol chwaraeon ac yn drosglwyddadwy ar eu traws;
- Mynd ati i recriwtio mwy o rieni, athrawon ac arweinwyr ifanc i arwain chwaraeon a darparu llwybrau ar eu cyfer at wirfoddoli, hyfforddi, dyfarnu neu weinyddu;
- Cefnogi clybiau cymunedol i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer plant 7 i 11 oed, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng clybiau ac ysgolion.

Dysgu a gwerthuso ffurfiol

- Adroddiadau Gwybodaeth Reoli Lleol / Rhanbarthol i helpu i roi gwybodaeth i randdeiliaid am y ddarpariaeth yn eu hardal leol; rheoli perfformiad staff; adrodd ar dargedau DPA i Lywodraeth Cymru
- **Adolygiad o Gampau'r Ddraig – Aml-sgiliau – Adroddiad Interim (Mawrth 2010) gan Sue Burgess**
- **Adolygiad o Gampau'r Ddraig (Awst 2010) gan Arad Consulting**
- **Gwerthusiad Peilot o Aml-Sgiliau'r Ddraig (Mai 2012) gan Bright Purpose**
- **Gwerthusiad annibynnol (2017) I'w gwblhau ym mis Mehefin 2018**

2. Ysgolion Uwchradd - 5x60

Nod y rhaglen

Gan adeiladu ar y datblygiadau cynnar a gyflawnwyd drwy Chwarae i Ddysgu ac Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig, y nod yw i bobl ifanc 11 i 16 oed wneud y canlynol:

- Parhau ar hyd eu siwrnai llythrennedd corfforol drwy ddatblygu ymhellach y sgiliau corfforol allweddol sy'n berthnasol i amrywiaeth o wahanol chwaraeon ac yn drosglwyddadwy ar eu traws;
- Cefnogi clybiau cymunedol i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer ieuenctid 11 i 16 oed, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng clybiau ac ysgolion;
- Mynd ati i recriwtio arweinwyr ifanc i arwain chwaraeon a darparu llwybrau ar eu cyfer at wirfoddoli, hyfforddi, dyfarnu neu weinyddu.

Dysgu a gwerthuso ffurfiol

- Adroddiadau Gwybodaeth Reoli Lleol / Rhanbarthol i helpu i roi gwybodaeth i randdeiliaid am y ddarpariaeth yn eu hardal leol; fel adnodd rheoli perfformiad lleol; adrodd ar dargedau DPA i Lywodraeth Cymru
- **Adolygiad cam cyntaf y peilot (2006) gan InVEST**

- Gwerthuso'r rhaglen 5x60: Adroddiad ar y cynnydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru (2009) gan **Greenstreet Berman Limited**
- Gwerthusiad Proses o gynllun 5x60: Adroddiad Terfynol (2010) gan **Greenstreet Berman Limited**
- Gweithgarwch Corfforol, Chwaraeon Allgyrsiol a'r Fenter '5x60': Ffyrdd o Fyw Hamdden a Phobl Ifanc yng Nghymru, 2007-2009 (2011) – **Traethawd PhD gan Anna Leyshon** (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
- Cyfranogiad Chwaraeon ymhlith ieuencid 14 i 21 oed. Sut mae annog pobl ifanc i ddal ati i gymryd rhan mewn chwaraeon? (2012) **Adroddiad terfynol i Chwaraeon Cymru gan Brightpurpose**
- Adroddiad Gwerthusiad 5x60: Cysylltu ysgolion â'r gymuned i gynnal cyfranogiad (2012) gan **S Wilcox (prosiect ymchwil – Prifysgol De Cymru)**
- Adolygiad o Fuddsoddiad mewn Chwaraeon Ysgol (2015) – **adolygiad mewnol gan Chwaraeon Cymru**
- Gwerthusiad annibynnol (2017) **I'w gwblhau ym mis Mehefin 2018**

Siwrnai Llythrennedd Corfforol

Mae Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig a 5x60 yn ddau ddull o weithredu i gefnogi siwrnai llythrennedd corfforol person ifanc. Maent yn adeiladu ar y datblygiadau cynnar a gyflawnwyd drwy Chwarae i Ddysgu i alluogi continiwm o ddysgu cynyddol.

Mae'r fideo diweddar yma 'Stori Lwyddiannus Ers 15 Mlynedd' <https://vimeo.com/211272295> yn dangos manteision a chyflawniadau ein buddsoddiad mewn AG a chwaraeon ysgol a chymunedol.

Astudiaethau Achos

Amser Stori Egniol

Ym mis Mehefin, cynhaliodd cydweithwyr yng Nghonwy 3 diwrnod o hyfforddiant Amser Stori Egniol i aelodau o staff yn y 10 llyfrgell yng Nghonwy, ac ar gyfer y 36 o leoliadau cyn ysgol iach. Yn ystod y 3 diwrnod, daeth mwy nag 80 o bobl i'r hyfforddiant a gyflwynwyd gan Sharon Mason o 'Play Learn Play'.

Nod y prosiect yw annog y lleoliadau cymunedol yma i gyflwyno elfen newydd yn eu hamseroedd stori. Drwy ddod â llyfrau'n fyw gan ddefnyddio pypedau a symudiadau, gallwn sicrhau bod plant Conwy'n egniol, yn iach ac yn dysgu sgiliau am oes. Drwy gefnogi'r lleoliadau hyn i annog plant i symud, rydym yn sicrhau eu bod yn cael cychwyn cadarn ar eu siwrnai llythrennedd corfforol.

Isod ceir fideo byr o'r dyddiau hyfforddi, yn esbonio eu pwrpas. Mae sawl lleoliad yn cynnal y sesiynau hyn eisoes.

https://www.youtube.com/watch?v=_qc0GoJyhWo

Hyfforddiant dan arweiniad Llysgenhadon Ifanc i lywodraethwyr ysgolion yng Nghonwy

Hyfforddiant dan arweiniad Llysgenhadon Ifanc - Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion ar lythrennedd corfforol ac effaith cyfleoedd aml-chwaraeon fel rhan o ddarpariaeth allgyrsiol.

Mae hwn yn ddull newydd a gwahanol o geisio dylanwadu ar Lywodraethwyr Ysgolion sydd â chyfrifoldeb am feysydd Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, o ran deall pwysigrwydd a blaenoriaeth i llythrennedd corfforol mewn ysgolion (cyflwynir gan Lysgenhadon Ifanc AUR ledled y sir), gan gysylltu hyn hefyd ag agenda gwasanaethau addysg yr ALL o “hybu iechyd a lles y dysgwr” a “DPA yn canolbwyntio ar lais y dysgwr”.

Cafwyd effaith bositif a cheir tystiolaeth o hynny yng nghanlyniadau'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ o weithiau yr wythnos o 39% yn 2013 i 79% yn 2015. Hefyd bu cynnydd o 19 pwynt canran yn y disgyblion oedd yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.

Ysgol AAA Sant Christopher, Wrecsam

Cyfleoedd Arweinyddiaeth a Chyfranogiad mewn lleoliad AAA.

Y llynedd cwblhaodd 20 o ddisgyblion y dyfarniad Arweinydd Chwaraeon Lefel 2 yn llwyddiannus. Mae'r grŵp wedi cronni mwy nag 80 awr o brofiad arwain. Darbwylodd y disgyblion eu hunain y Swyddog 5x60 i ddechrau'r cwrs Lefel 3 eleni. Mae'r disgyblion yn gwirfoddoli yn y gymuned yn awr ac yn mentora disgyblion iau. Hefyd mae'r disgyblion yn gwirfoddoli mewn Gwyliau AAA ar gyfer Ysgolion Iau Wrecsam.

Mae'r ysgol yn falch iawn o gyflawniadau'r disgyblion a'r ffaith bod hyn yn profi bod posib goresgyn ffiniau. Mae'r Arweinydd hyn wedi gweld yn uniongyrchol beth sy'n bosib ei gyflawni ac mae wedi bod yn siwrnai ryfeddol i bawb yn yr ysgol.

Mynd i'r afael â throseddau, ymddygiad anghymdeithasol ac ieuentid sydd wedi ymddieithrio, Sir y Fflint

Drwy weithio gyda phartneriaid allweddol, fel y tîm Cyffuriau ac Alcohol, y gwasanaeth ieuentid, addysg ac ysgolion a Heddlu Gogledd Cymru, rydym wedi lansio system clwb 'carreg y drws' ar gyfer ymddygiad anghymdeithasol. Mae'r clybiau'n weithredol ar hyn o bryd yn Hope, Penarlâg, Fflint, Glannau Dyfrdwy a'r Wyddgrug. Mae'r cyfranogiad yn amrywio rhwng 15 a 45 y sesiwn. Rydym wedi defnyddio pêl droed yn bennaf fel cyfrwng i ymgysylltu, ond hefyd wedi defnyddio golff, ffitrwydd a'r sba yn y dull hwn o weithio. Drwy weithio gyda chlybiau, cyrff rheoli cenedlaethol a darparwyr, rydym wedi gallu cynnig darpariaeth gynaliadwy am bris fforddiadwy i annog mwy o gymryd rhan.

Llwybr Arweinydd Ifanc

Mae tîm datblygu chwaraeon Sir Fynwy wedi prynu trwydded gan Sports Leaders UK fel eu bod yn cael hyfforddi pob disgybl ym Mlwyddyn 5 yn Nyfarniad Arweinyddiaeth Play Maker (tua 1000 o ddisgyblion). Mae'r dyfarniad yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth dysgwyr. Bydd y Lysgenhadon Ifanc Efydd yn cael eu dewis drwy Play Makers i arwain a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ysgolion.

Gwent Egniol – Llythrennedd Corfforol

Mae rhanbarth Gwent Egniol wedi cydweithio i ddatblygu cyfleoedd llythrennedd corfforol ledled y rhanbarth. Yn ystod 2016/17, sefydlwyd 500 o sesiynau llythrennedd corfforol mewn cymunedau ar draws Gwent. Mae datblygu strwythurau clybiau iau ledled y rhanbarth wedi bod yn ffocws drwy wella sgiliau mwy na 490 o hyfforddwyr a 570 o rieni o ran eu dealltwriaeth o sut i ddatblygu plant a phobl ifanc llythrennog yn gorfforol.

Rhaglen Dyfodol Positif Gwent Egniol

Cyllid: £70k o gyllid gan Chwaraeon Cymru wedi'i gyfateb gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent

Mae Dyfodol Positif Gwent yn rhaglen cynhwysiant cymdeithasol seiliedig ar chwaraeon. Mae'n defnyddio chwaraeon fel adnodd i gynnwys pobl ifanc mewn cymunedau sydd wedi'u datgan fel 'leoliadau problemus' gan bartneriaid, neu drwy gyfeirio i leoliadau addysg amgen. Yn ystod 2016-17, mae'r rhaglen wedi gweithio gyda mwy na 9,000 o bobl ifanc i'w cael i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan arwain at y canlynol:

- Cynnydd mewn cymryd rhan mewn chwaraeon ymhlith plant a phobl ifanc oedd wedi ymddieithrio;
- Llai o ymddygiad anghymdeithasol ar adegau allweddol gan fod gweithgarwch chwaraeon wedi rhoi pwrpas arall i bobl ifanc;
- Llai o ymddygiad anghymdeithasol ar adegau allweddol o'r flwyddyn; a
- Cynnydd mewn presenoldeb mewn ysgolion, datblygiad personol ac ymgysylltu ymhlith pobl ifanc mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEETs).

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Mr Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Mawrth 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2016-17

Atodaf fy ymatebion i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwneud â Chraffu ar Gyfrifon 2016-17, ar gyfer yr argymhellion a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ichi gael rhoi sylw iddynt.

Yn gywir, 

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

